Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 23 IONAWR 2024 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 23 JANUARY 2024 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 28 Tachwedd 2023
- 12 Rhagfyr 2023

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 15 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5** **CYLLDEB REFENIW DDRAFFT 2024/25** (Tudalennau 29 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6** **GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DI-BRESWYL YN Y GYMUNED - FFIOEDD A THALIADAU 2024/25** (Tudalennau 53 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**7** **FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL 2024/25** (Tudalennau 59 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**8** **MODERNEIDDIO A THRAWSNEWID GWEITHGAREDDAU DYDD YN ARDAL CAERGYBI** (Tudalennau 63 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Datblygu Economaidd (THJ) (ar gyfer eitemau 11 a 13)<br>Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) (ELl)<br>Cyfreithiwr (Contractau, Caffael a Llywodraethu Corfforaethol) (DW)<br>Swyddog Diogelu Data (HP) (ar gyfer eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Trefor Ll. Hughes, MBE, Robert Ll. Jones, Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Sgriwtini (EA), Swyddog Cyfathrebu (GJ) |

---

DRAFT

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2023 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 yn gywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Gorffennaf 2024 i'w chadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ynghylch newidiadau i'r Blaen Raglen Waith a nodwyd y canlynol –

- Eitemau 3 (Gwahardd Anifeiliaid fel Gwobrau) a 4 (Achos Busnes Amlinellol a Strategol – Tai Gofal Ychwanegol Aethwy) fel eitemau newydd ar gyfer cyfarfod 12 Rhagfyr 2023 y Pwyllgor Gwaith.
- Aildrefnwyd Eitem 5 (Rhenti Tai y CRT a Thaliadau Gwasanaeth Tai 2024/5) i gyfarfod 12 Rhagfyr 2023 o'r Pwyllgor Gwaith.
- Eitem 20 (Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022/23 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod 20 Chwefror 2024 y Pwyllgor Gwaith.
- Aildrefnwyd Eitem 29 (Asesiad o'r Farchnad Tai Lleol) i gyfarfod 19 Mawrth 2024 o'r Pwyllgor Gwaith.
- Eitem 32 (Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24) fel eitem newydd ar gyfer penderfyniad dirprwyedig gan yr Aelod Portffolio ym mis Mehefin 2024.
- Eitem 34 (Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 4 2023/24) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2024.
- Eitemau 35 i 37 (adroddiadau monitro'r gyllideb) fel eitemau newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2024.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 2 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer yr adroddiad gan dynnu sylw at y ffaith bod 91% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio uwchlaw neu o fewn 5% o oddefgarwch i'w targedau, sy'n galonogol ar ddiwedd Chwarter 2. Mae rhai o'r straeon cadarnhaol yn cynnwys dangosyddion y Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol (NERS), nifer y tai gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto, dangosyddion Gwasanaethau Oedolion a Theuluoedd, dangosyddion Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, dangosyddion digartrefedd, rheoli gwastraff a dangosyddion priffyrdd. Er nad oedd dadansoddiad llawn o'r dangosyddion perfformiad iechyd corfforaethol ar gyfer y chwarter wedi bod yn bosibl, mae mwyafrif (67%) y dangosyddion lle mae data ar gael yn erbyn targedau sy'n cael eu monitro yn yr adran hon yn perfformio'n dda ac maent yn Wyrdd neu'n Felyn. Ar ddiwedd Chwarter 2 mae'r perfformiad yn erbyn y targed yn Goch mewn perthynas â dyddiau a gollwyd i absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) ond dylid nodi bod salwch tymor hir yn ffactor dylanwadol ac yn cyfateb i 62% o'r cyfraddau absenoldeb ar gyfer y cyfnod.  Mae'r meysydd sy'n cael eu monitro gan y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol yn cynnwys y diwrnodau cyfartalog a gymerir i ddarparu grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r amser a gymerir i ddarparu unedau llety y gellir eu gosod yn y Gwasanaethau Tai, canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd a nifer y



DRAFT

ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen oherwydd y diffyg data sydd ar gael ar gyfer yr ail chwarter ar gyfer y gweithgaredd hwn. Er bod y rhagolygon ar gyfer sefyllfa ariannol y Cyngor wedi gwella o'r hyn a adroddwyd ar ddiwedd Chwarter 1, rhagwelir y bydd gorwariant o hyd ar ddiwedd y flwyddyn gyda chyllidebau rhai gwasanaethau o dan bwysau. Craffir ar wariant er mwyn cyfyngu ar y gorwariant.

Rhoddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad o gyfarfod 21 Tachwedd 2023 y Pwyllgor lle craffwyd ar adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 2. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor wedi bod yn falch o nodi bod 91% o'r dangosyddion yn perfformio'n dda a'u bod wedi gofyn am sicrwydd y byddai'r tri dangosydd sy'n tanberfformio yn gwella. Nodwyd y gorwariant a ragwelir a gofynnwyd sut mae pwysau cyllidebol yn cael eu rheoli a'u lliniaru. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau hefyd am y camau sy'n cael eu dilyn mewn ymateb i'r cynnydd yn y dyddiau cyfartalog a gollwyd i absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn. Nodwyd nifer yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd a chodwyd cwestiynau ynghylch effaith y mesurau lliniaru a gyflwynwyd. Trafodwyd y ddau ddangosydd sy’n tanberfformio yn adran gwasanaethau tai sy'n ymwneud â'r dyddiau cyfartalog a gymerwyd i ddarparu grant Cyfleusterau i'r Anabl a’r amser a gymerir i ddarparu unedau llety y gellir eu gosod (Dangosyddion 28 a 29 yn y drefn honno) a gofynnwyd am waith pellach ar y meysydd hyn. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am ddangosyddion lleol i fesur perfformiad mewn cysylltiad â tharged sero net y Cyngor. Yn dilyn ei drafodaethau, cytunodd y Pwyllgor i argymell adroddiad cerdyn sgorio Chwarter 2 2023/24 a'r mesurau lliniaru a oedd ynddo i'r Pwyllgor Gwaith a hefyd penderfynodd sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen Sgriwtini i archwilio perfformiad yn erbyn Dangosydd 29 yn y Gwasanaethau Tai gyda chais i grŵp swyddogion ddadansoddi'r perfformiad yn erbyn Dangosydd 28 gyda'r bwriad o wella perfformiad y gweithgareddau hyn sy’n gysylltiedig â thai.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn braf gweld perfformiad yn dal ei dir ar ddiwedd Chwarter 2. Tynnodd sylw at absenoldeb salwch fel maes pwysig i'w fonitro wrth symud i'r trydydd chwarter gan fod iddo oblygiadau ehangach ar gyfer perfformiad y tîm a’r gwasanaeth. Croesawodd y ffaith y byddai Sgriwtini yn trafod i geisio ymchwilio'n ddyfnach i'r data y tu ôl i'r ddau darged a fethwyd yn y Gwasanaethau Tai gan fod y dystiolaeth yn awgrymu y gallai hynny fod o gymorth i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad y dangosyddion hynny.

Cydnabu aelodau'r Pwyllgor Gwaith y perfformiad cadarnhaol yn gyffredinol a'r ymdrechion a wnaed i gynnal lefel y perfformiad ar adeg anodd. Nodwyd y meysydd amlwg a rhoddwyd sicrwydd y byddai gwaith monitro’n cael ei wneud a sylw’n cael ei roi i'r meysydd hynny lle methwyd y targed. Pwysleisiodd Aelodau’r Pwyllgor Gwaith ei bod yn bwysig egluro’r cyd-destun ar gyfer y dangosyddion sy'n tanberfformio; cyfeiriodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai at achosion cymhleth sy’n gallu effeithio'n sylweddol ar yr amserlen o ran darparu grant Cyfleusterau i'r Anabl (Dangosydd 28); cyfeiriwyd hefyd at ddiffyg contractwyr/gweithwyr sy’n gallu effeithio ar yr amser a gymerir i wneud eiddo y mae angen ei adnewyddu yn barod i’w hail-osod fel ffactor ym mherfformiad Dangosydd 29. Diolchodd y Cynghorydd Pritchard i’r pwyllgor Sgriwtini am y drafodaeth a'r adborth mewn perthynas â'r dangosyddion hyn ar gyfer gweithgareddau Tai ac roedd yn awyddus i gyfrannu at y gwaith pellach y bwriedir ei wneud. Canmolodd y perfformiad o ran dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd - roedd wedi rhagori ar y targed - ynghyd â Dangosyddion Perfformiad Gwasanaethau Plant a oedd i gyd yn Wyrdd ar wahân i un a oedd yn Felyn ac o fewn 5% i'r targed a oedd yn arbennig o dda yng ngoleuni'r cynnydd mewn atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ac effaith yr argyfwng costau byw. Yn yr un modd, tynnodd y Cynghorydd Nicola Roberts sylw at y ffaith bod dau o'r tri dangosydd cynllunio yn Wyrdd a bod yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio mewn perthynas â nifer yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd sy'n cynnwys nifer fach iawn o achosion o gymharu â nifer y ceisiadau cynllunio yr ymdrinniwyd â nhw yn y cyfnod.

DRAFT

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 2 2023/24 a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau yn  y dyfodol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**

## 6. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2, 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad gan ddweud, yn seiliedig ar y data hyd at ddiwedd Chwarter 2, bod y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2023/24 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor yn dangos gorwariant o £0.364m sy'n cynrychioli 0.21% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2023/24. Er bod y sefyllfa hon yn well na'r hyn a adroddwyd ar ddiwedd Chwarter 1 ac yn berfformiad cadarn o ystyried yr heriau, mae rhai gwasanaethau, yn benodol Gofal Cymdeithasol - Oedolion a Phlant yn parhau dan bwysau sylweddol fel yr adlewyrchir gan Dabl 1 yn yr adroddiad ac mae'r gorwario gan y gwasanaethau hynny'n cael ei wrthbwyso gan danwariant mewn gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Cyfeiriodd Aelod Portffolio Cyllid at Ddatganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf. Nid oedd yn sôn am gyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol naill ai yng Nghymru na Lloegr. Roedd hyn yn peri pryder yn enwedig o ystyried cyflwr enbydus rhai cynghorau o safbwynt cyllid. Mae'n annhebygol y bydd swm ychwanegol o £305m i Gymru (sy'n golygu cynnydd mewn gwariant yn Lloegr) hyd yn oed yn talu'r cynnydd yng nghostau cyflogau yng Nghymru cyn i'r pwysau sy'n deillio o gostau pensiwn Athrawon uwch hefyd gael eu hystyried. Mae sefyllfa ariannol awdurdodau lleol Cymru felly yn peri pryder.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, er bod y ffigurau, sy'n seiliedig ar chwe mis o wariant gwirioneddol yn gadarnach, gall cyfnod y gaeaf sydd o'n blaenau fod yn heriol yn enwedig ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phriffyrdd. Nid yw'r argyfwng costau byw wedi dod i ben ac mae'n debygol o arwain at gynnydd yn y galw am nifer o wasanaethau'r Cyngor. Er bod y dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer 2023/24 wedi'i setlo a'r costau'n cael eu talu o'r ddarpariaeth bresennol, mae'r setliad yr un fath â'r swm a gynigiwyd gan y Cyflogwyr yn ôl ym mis Mawrth 2023, ac nid oes unrhyw arwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ychwanegol i dalu cost y codiad cyflog i Athrawon o fis Medi 2023, fel y gwnaeth yn 2022. Mae'r prif amrywiadau yn y gyllideb yn yr adroddiad yn ymwneud â gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae sefyllfa gwasanaethau Oedolion wedi gwella tra bod gwasanaethau Plant wedi dirywio, yn bennaf oherwydd costau ychwanegol o ganlyniad i newidiadau i'r lleoliadau presennol. Mae incwm Y Dreth Gyngor yn agos at y gyllideb ac mae cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid. Mae ad-daliad o £1.2m ar y cyfraddau sy'n daladwy ar Oriel Ynys Môn wedi'i sicrhau yn dilyn apêl a bydd yn cael ei ychwanegu at falansau'r Cyngor.

Ystyriodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr adroddiad ac ymysg y materion a godwyd oedd y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod cosb am beidio â chyflawni targedau ailgylchu ar gyfer 2021/22 a 2022/23 a allai effeithio ar sefyllfa alldro y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff er y nodwyd hefyd fod cyfraddau ailgylchu ar i fyny eto gyda chymorth mewnbwn gan WRAP Cymru. Cydnabu'r Aelodau fod llawer o heriau o'n blaenau yn enwedig o ran cyllideb 2024/25 a bod rhai gwasanaethau'n dod dan bwysau cynyddol, yn enwedig gofal cymdeithasol ar ôl blynyddoedd lawer o danfuddsoddi yn genedlaethol. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig parhau i fonitro perfformiad y gyllideb fel y gellir nodi a pharatoi pwyntiau gwasgu wrth baratoi cyllideb 2024/25. Trafodwyd yr amserlen o ran trafodaethau ynglŷn â setliadau cyflog 2024/25 a'r goblygiadau ar gyfer pennu'r gyllideb, gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn cynghori y bydd setliadau cyflog ar gyfer 2024/25 yn parhau i fod yn heriol oherwydd y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a fydd yn effeithio

DRAFT

ar y sector gofal yn benodol a thrwy hynny ar y Cyngor fel comisiynydd gwasanaethau gofal a hefyd oherwydd y gyfradd chwyddiant bresennol. Bydd yn rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer codiadau cyflog yn y gyllideb ddrafft hyd nes y cadarnheir cais yr Undeb a chynnig y Cyflogwr ar gyfer 2024/25 ar ôl y Flwyddyn Newydd.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2023/24;**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2023/24, y manylir arnynt yn Atodiad C;**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2023/24 yn Atodiadau CH a D.**

**7. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol cyllideb gyfalaf y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2, 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad gan gadarnhau bod cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn £60.018m sy'n cynnwys y CRT, llithriad o 2022/23, a ariannwyd gan grant, cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd at y rhaglen ynghyd â gwelliannau ers i'r gyllideb wreiddiol gael ei gosod fel y dangosir yn y tabl ym mharagraff 1.2 o'r adroddiad. Er bod y gwariant a broffiliwyd hyd at 30 Medi 2023 yn £19m, y gwariant gwirioneddol yw £18.704m neu £19.616m pan ystyrir gwariant a ymrwymwyd gwerth £912k. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau ar y trywydd iawn i'w cwblhau o fewn y gyllideb ac er bod disgwyl i rai cynlluniau danwario ar hyn o bryd, mae'r cyllidebau wedi'u hymrwymo ac mae gofyn amdanynt, a gofynnir i'r cynlluniau hyn lithro i 2024/25 er mwyn eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nifer y cynlluniau cyfalaf sydd bellach yn cael eu cefnogi gan gyllid grant gyda chyllid cyfalaf craidd wedi gostwng mewn termau real dros y blynyddoedd diwethaf. Cyfeiriodd hefyd at y mater o ddelio â darganfod concrit RAAC mewn dwy o ysgolion yr Ynys a oedd yn golygu bod llai o gapasiti ar gyfer gweithgareddau eraill yn ystod y misoedd diwethaf wrth i'r Gwasanaeth Eiddo roi sylw i'r broblem.

Cydnabu aelodau'r Pwyllgor Gwaith natur fregus y gyllideb gyfalaf a'r diffyg buddsoddiad go iawn mewn cyllid cyfalaf dros nifer o flynyddoedd. Roedd yr aelodau hefyd yn gwerthfawrogi ymdrechion y Gwasanaeth Eiddo wrth ymateb gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Dysgu a'r ddwy ysgol i fynd i'r afael â phroblem concrit RAAC.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn Chwarter 2.**
- **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £7.319m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid diwygiedig, yn unol ag Atodiad C yr adroddiad, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf o £60.018m ar gyfer 2023/24.**



DRAFT

## 8. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 2 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 2 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad a oedd yn amlinellu perfformiad refeniw a chyllideb gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod a'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Yn ôl yr adroddiad mae'r gyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £8,044k. Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yw £19,988k. Mae grantiau a chyllid arall gwerth £6,898k yn gostwng y gyllideb net i £13,090k. Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £5,046k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT. Mae cyllideb refeniw y CRT yn dangos tanwariant ar ddiwedd yr ail chwarter o £600k o'i gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad. Mae gwariant cyfalaf £940k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y chwarter. Mae'r gwariant a ragwelir £1,890k yn uwch na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn fel y manylir yn Atodiad B i'r adroddiad. Y diffyg a ragwelir gan gyfuno refeniw a chyfalaf bellach yw £4,702k, £343k yn llai na'r gyllideb.

Roedd balans agoriadol y CRT yn £12,107k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £5,046k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £4,702k yn unig. Mae hyn yn rhoi balans o £7,405k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, mae ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 statws y Cyfrif Refeniw Tai ar wahân i Gronfa Gyffredinol y Cyngor gyda'i hincwm yn deillio o renti'r stoc dai ac nid o grant Llywodraeth Cymru. Mae unrhyw incwm dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi i uwchraddio a chynnal y stoc bresennol i Safonau Ansawdd Tai Cymru a defnyddir balansau o gronfa wrth gefn y CRT sydd wedi cronni dros nifer o flynyddoedd i ariannu gwariant cyfalaf. Gall y CRT hefyd fenthyca i fuddsoddi mewn datblygu tai cyngor newydd. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai mewn sefyllfa gadarn ac mae'n cynhyrchu incwm dros ben a thrwy hynny mae modd iddo ail-fuddsoddi arian a defnyddio pwerau benthyca i helpu i ddatblygu rhagor o dai yn unol â'r strategaeth sydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun Busnes y CRT. Mae Atodiad C i'r adroddiad yn manylu ar yr unedau tai sydd wedi'u cynllunio a/neu'n cael eu datblygu a'r gyllideb datblygiadau ar gyfer 2023/24.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2023/24.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2023/24.**

## 9. SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i bwrpas gosod sylfaen dreth y Cyngor ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad gan ddweud bod gofyn i'r Cyngor, fel yr awdurdod bilio, gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal, a gwahanol rannau o'i ardal, a bod yn rhaid rhoi gwybod beth yw'r symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2023. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 14 Tachwedd 2023, ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 5 Ionawr 2024. Y ffigwr a gyfrifwyd ar gyfer sylfaen y Dreth Gyngor i'w



DRAFT

ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i osod y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2024/25 yw 31, 241.64, gostyngiad o 0.10% ar y flwyddyn flaenorol. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys addasiadau ar gyfer premiymau a'r disgowntiau a roddir gan rhai awdurdodau ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C (nid yw hyn yn effeithio ar Ynys Môn gan na roddir disgowntiau o'r fath). Y ffigwr ar gyfer y Sylfaen Dreth i bwrpas gosod trethi sy'n cynnwys addasiadau ar gyfer premiymau yw 33,170.03, cynnydd o 1.07% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y broses o gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor er mwyn i Lywodraeth Cymru bennu lefel y Grant Cynnal Refeniw a hefyd er mwyn pennu trethi lleol a'r ffactorau dan sylw, gan gynnwys yn achos yr olaf y cynnydd yn y premiwm ail gartrefi o 75% i 100% y disgwylir iddo gael ei gadarnhau gan y Cyngor Llawn wrth osod y gyllideb ym mis Mawrth, 2024 ac sy'n cyfrif am y cynnydd yn y sylfaen dreth. Cyfeiriodd at newidiadau yn y sylfaen dreth o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y Dreth Gyngor safonol, tai gwag, ac ail gartrefi gan nodi, er bod nifer yr eiddo sy'n destun y premiwm ail gartrefi wedi gostwng, mae'r cynnydd arfaethedig yn y gyfradd premiwm o 75% i 100% wedi cael effaith sylweddol ar yr elfen hon o'r sylfaen dreth. Bydd y newidiadau yn y sylfaen dreth yn effeithio ar fan cychwyn y Cyngor ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2024/25, sef 31,241.64 (Rhan E6 o Atodiad A yn yr adroddiad)**
- **Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2024/25 (Rhan E6 o Atodiad A yn yr adroddiad)**
- **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561), fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2024/25 sef 33,170.03, ac am y rhannau hynny o'r ardal fel sydd wedi eu rhestru yn y tabl o dan argymhelliad 3 yn yr adroddiad.**

## 10. STRATEGAETH TAI GWAG 2023-28

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys Cynllun Strategol Tai Gwag ar gyfer 2023 i 2028 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gary Pritchard yr adroddiad gan ddweud bod y Cynllun yn elfen bwysig o weledigaeth y Pwyllgor Gwaith y dylai pawb gael yr hawl i alw rhywle'n gartref. Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosibl o dai gwag ac yn annog perchnogion i ddod â thai'n ôl i ddefnydd unwaith eto. Mae 612 o dai gwag ar Ynys Môn ar hyn o bryd gyda 908 o geisiadau ar gofrestr tai cymdeithasol y Cyngor am lety addas o fis Mawrth 2023; byddai dod â'r eiddo hynny yn ôl i ddefnydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol ym mywydau'r rhai sy'n aros am gartref. Dywedodd y Cynghorydd Pritchard ei fod wedi gweld sawl eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn ei ward ei hun ac wedi dod yn gartrefi i bobl o'r ardal a fyddai fel arall yn dal i gael trafferth dod o hyd i lety neu mewn rhai achosion yn gorfod cysgu yng nghartrefi ffrindiau neu berthnasau. Mae'r gwaith a wnaed i sicrhau hyn yn haeddu canmoliaeth ac mae'n destun balchder.

DRAFT

Dywedodd Rheolwr Gwasanaeth Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) fod y Cynllun yn esbonio pam fod mabwysiadu dull strategol o fynd i'r afael â mater tai gwag yn bwysig o ystyried y galw am dai addas a phwysau tai presennol. Mae'r Cynllun yn nodi pedwar prif amcan ac yn manylu ar sut y bydd y rheini'n cael eu cyflawni; mae'n cydnabod bod dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn waith partneriaeth ac mae'n cynnwys cydweithio â gwasanaethau eraill y Cyngor ac asiantaethau allanol i ddelio â'r gwahanol agweddau ar gartrefi gwag a deddfwriaethau amrywiol.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cynllun Strategol yn crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn unol â'r dull y mae wedi'i gymryd dros nifer o flynyddoedd sydd ers 2017 wedi gweld 525 o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Mae'r Cyngor wedi sefydlu sylfaen gref ar gyfer y gwaith o fynd i'r afael â thai gwag ac mae'n cael ei ystyried ar flaen y gad o ran y gweithgaredd hwn.

Rhoddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad o gyfarfod 21 Medi 2023 y Pwyllgor a oedd yn ystyried y Cynllun Strategol Tai Gwag a chadarnhaodd, wrth argymell y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith, fod yr Aelodau wedi trafod y dull o fynd i'r afael â thai gwag hirdymor a phroblemus, y cyfraniad y mae'r Cynllun yn ei wneud tuag at gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor,  i ba raddau y mae'r Cynllun yn dibynnu ar fewnbwn gan bartneriaid a gwasanaethau eraill a'r heriau o ran ymgysylltu â pherchnogion tai gwag y sector preifat.

Croesawodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith y Cynllun Strategol fel parhad o'r gwaith da a wnaed gan Wasanaethau Tai i ddelio â chartrefi gwag dros nifer o flynyddoedd a thynnwyd sylw at rhai o'r straeon llwyddiannus i drawsnewid safleoedd anodd fel Clwb Cymdeithasol Biwmares, Clwb Hen Snwcer yng Nghaergybi yn ogystal â Phlas Alltran yng Nghaergybi a dod â nhw yn ôl i ddefnydd er budd pobl leol a chymunedau lleol. Wrth gefnogi'r Cynllun, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd ynglŷn â pha mor ddigonol yw adnoddau tai gwag y Gwasanaethau Tai er mwyn gallu cyflawni amcanion y Cynllun dros y tymor pum mlynedd.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Tai, er bod y tîm yn fach, fod y gwasanaeth yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo; nodwyd bod swydd cynorthwyydd Tai Gwag wedi'i hariannu drwy'r Premiwm Tai Gwag sy'n hanfodol i gefnogi'r gwaith yn y maes hwn.

Wrth nodi bod 251 o gartrefi wedi bod yn wag am 3 blynedd neu fwy a bod 77 o gartrefi wedi bod yn wag ers 10 mlynedd, anogodd y Pwyllgor Gwaith berchnogion tai gwag hirdymor i ymgysylltu â'r Cyngor i weld pa gyngor a chymorth y gall ei gynnig i helpu i ddod â'r cartrefi hynny yn ôl i ddefnydd.

**Penderfynwyd derbyn y Cynllun Strategol Tai Gwag 2023/28.**

**11. PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN – DIWEDDARIAD AR BARATOI'R ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn nodi'r cynnydd o ran paratoi'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Rhoddodd y Cadeirydd rywfaint o wybodaeth gefndirol am y cais llwyddiannus am statws Porthladd Rhydd a chymeradwyo'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol ym mis Gorffennaf 2023 gyda gweithredwr y porthladd Stena Line. Trwy'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol, sefydlwyd Corff Llywodraethu dros dro ac mae'r Cyngor ar fin cwblhau cytundeb grant gyda Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd i gefnogi'r broses o ddatblygu Achos Busnes Amlinellol

(OBC). Mae'r OBC yn cael ei ddatblygu yn unol â'r cyfarwyddyd drafft ar gyfer Porthladdoedd Rhydd Cymru gan na chyhoeddwyd y canllawiau terfynol tan fis Hydref 2023 ond does dim newid o'r fersiwn drafft. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gofynion wrth gwblhau'r OBC a'r materion dan sylw.

Cadarnhaodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod yr amserlen ar gyfer paratoi a chyflwyno'r OBC wedi bod yn heriol, felly hefyd y dasg o gyflawni agweddau mwy technegol gofynion y canllawiau. Mae cryn dipyn o waith wedi'i gyflawni ac mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda o ran y wybodaeth y mae wedi'i rhoi at ei gilydd ac o ran cyflawni'r targed ar gyfer dyddiad cyflwyno'r OBC. Mae sawl ffrwd waith yn parhau yn y cefndir gan gynnwys mewn perthynas â sero net, yr iaith Gymraeg, arloesi, cadwyni cyflenwi lleol a Gwaith Teg i sicrhau bod y cynnig yn un sy'n gweithio i Ynys Môn a rhanbarth ehangach y gogledd-orllewin. Bydd yr Achos Busnes Llawn yn cael ei baratoi'r flwyddyn nesaf a disgwylir penderfyniad terfynol gan Lywodraethau'r DU a Chymru ym mis Medi 2024. Yn ogystal â hyn, trefnwyd digwyddiad cymunedol yn Neuadd y Farchnad, Caergybi ar gyfer 1 Rhagfyr 2023 i roi cyhoeddusrwydd i bobl a helpu pobl i ddeall rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn yn well a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth y cynnig.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith i'r tîm Datblygu Economaidd am ei ymdrechion hyd yma gan gydnabod bod llawer iawn o waith wedi'i gwblhau o fewn amserlen dynn yn ogystal â phwysigrwydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth leol y mae'r tîm wedi'u cyfrannu at y gwaith hwnnw. Er ei fod yn cydnabod y manteision y mae statws Porthladd Rhydd wedi'u cynllunio i'w creu o ran adfywio, creu swyddi, buddsoddi ac arloesi, pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith bwysigrwydd rheoli disgwyliadau gan dynnu sylw at y ffaith na fydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn weithredol tan ar ôl i'r Achos Busnes Terfynol gael ei gymeradwyo tua diwedd y flwyddyn nesaf. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyflawni'r dyddiad targed ar gyfer cyflwyno'r OBC, cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd er bod yr amserlen yn heriol a bod gwaith i'w wneud eto, fod y Cyngor mewn sefyllfa dda i gyflwyno'r OBC i'r safonau disgwyliedig yn unol â dyddiad cyflwyno'r OBC ym mis Tachwedd.

**Penderfynwyd –**

- **Awdurdodi swyddogion i gwblhau'r Achos Busnes Amlinellol drafft.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, i gymeradwyo a chyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.**
- **Cytuno i eithrio'r penderfyniad rhag cael ei alw i mewn (gyda chytundeb Cadeirydd y Cyngor) gan y gallai hynny danseilio'r gwaith o gyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i'r naill Lywodraeth.**

DRAFT

**12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei fod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd atodedig.**

**13. PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN – TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a gweithredu Porthladd Rhyddid Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Arweiniodd y Prif Weithredwr aelodau'r Pwyllgor Gwaith drwy'r adroddiad a oedd yn nodi'r materion i'w hystyried a'u datrys wrth ddod i benderfyniad a chytundeb ar lywodraethu ac agweddau gweithredol Porthladd Rhydd Ynys Môn. Atodwyd papur yn crynhoi safbwynt y Cyngor mewn perthynas â llywodraethu (Opsiynau Llywodraethu Porthladd Rhydd Ynys Môn) fel Atodiad 1 i'r adroddiad. Cyngor Sir Ynys Môn fydd y Corff Cyfrifol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn, mae'n ofynnol dynodi awdurdod lleol fel y corff cyfrifol fel un o amodau'r Llywodraethau. Mae Atodiad 2 yr adroddiad yn nodi rôl y Corff Cyfrifol fel y cytunwyd gan y Corff Llywodraethu Porthladd Rhydd, a sefydlwyd o dan y Cytundeb Cydweithio Dros Dro rhwng y Cyngor a Stena Line yn dilyn y cais llwyddiannus am statws Porthladd Rhydd. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran cyllid gweithredol a chyfalaf a safleoedd treth yng nghyd-destun paratoi'r OBC, y materion dan sylw a'r camau nesaf. Cynhwyswyd map o Safleoedd Treth fel Atodiad 3 i'r adroddiad. Nodwyd y byddai adroddiadau pellach ar y materion hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith maes o law wrth i'r gwaith fynd rhagddo a datblygu.

**Penderfynwyd -**

- **Cytuno y bydd Cyngor Ynys Môn yn gweithredu fel corff cyfrifol gyda'r cyfrifoldebau a amlinellir yn yr adroddiad.**
- **Dirprwyo'r awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 er mwyn symud ymlaen â'r trefniadau gyda phartneriaid eraill ar gyfer creu strwythur llywodraethu ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn a sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion llywodraethu priodol y Cyngor.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiad pellach ar y trefniadau llywodraethu a fydd yn nodi rôl y Cyngor o fewn strwythur llywodraethu Porthladd Rhydd Ynys Môn unwaith y bydd cynnydd pellach o ran y materion a amlinellir yn yr adroddiad.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd R Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) (AH) (eitem 6 yn unig),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Neville Evans |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes a Derek Owen<br>Swyddog Sgriwtini (EA) |

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w adrodd.

### 3 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2024 ac Awst 2024.

Derbyniodd y Pwyllgor Gwaith ddiweddariad gan y Pennaeth Democratiaeth ynglŷn â'r newidiadau i'r Flaen Raglen Waith, a nodwyd y canlynol –

- Eitem 16 (Cynllun Bioamrywiaeth – Adroddiad Cynnydd Blynyddol) – wedi cael ei symud o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 12 Rhagfyr 2023 i'r cyfarfod ar 20 Chwefror 2024.
- Eitem 26 (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol) – wedi cael ei symud o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 12 Mawrth 2024 i'r cyfarfod ar 23 Ebrill 2024.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2024 ac Awst 2024 gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.**

**4 RHENTI TAI A THALIADAU GWASANAETH Y CRT 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai, a oedd yn ymgorffori Rhenti Tai a Thaliadau Gwasanaeth y CRT ar gyfer 2024/2025, ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai nad yw'r codiad rhent blynyddol cyfredol o MPD +1% yn gymwys gan fod y mynegai prisiau defnyddwyr (MPD) yn 6.7% ym mis Medi 2023 ac mae hynny tu allan i'r amrediad o 0% i 3%. Oherwydd hynny bydd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd yn Llywodraeth Cymru'n penderfynu ar y cynnydd priodol ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2024/25. Mae'r Gweinidog wedi penderfynu mai'r codiad rhent uchaf ar draws yr holl stoc dai fydd hyd at 6.7%.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r Awdurdod ymrwymo i gwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru 2 (SATC2) a lansiwyd yn ddiweddar erbyn 2033 os yw'r Cyngor yn cytuno i godiad o 6.7% yn y rhent blynyddol. Mae disgwyl hefyd i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru barhau i gynyddu niferoedd tai cymdeithasol fforddiadwy er mwyn cyflawni eu huchelgais o greu 20,000 o gartrefi newydd. Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth Tai wedi cwblhau 131 o unedau newydd ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar 39 o gartrefi newydd, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer Cynllun Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthaethwy. Serch hynny, wrth ystyried cynyddu'r rhent blynyddol mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sawl ymrwymiad a chynllun newydd, gan gynnwys gwahardd troi tenantiaid allan oherwydd caledi ariannol yn ystod tymor y setliad cyn belled â bod tenantiaid yn cadw mewn cysylltiad â landlordiaid; targedu cefnogaeth i bobl sy'n profi caledi ariannol er mwyn iddynt dderbyn cymorth. Mae'n ofynnol hefyd gwneud y defnydd gorau o'r holl stoc tai cymdeithasol addas. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai hefyd at y gofyn i asesu fforddiadwyedd cyfartalog presennol rhenti i denantiaid ac mae'r adroddiad yn cyfeirio at hynny. Anfonwyd holiadur at yr holl denantiaid i ganfod a ydynt o'r farn fod eu rhenti'n deg, yn fforddiadwy a bod y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn cynnig gwerth am arian. Cafodd 779 o holiaduron eu dychwelyd a'r bwriad oedd cyrraedd cymaint â phosib o denantiaid nad ydynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau sy'n cyfrannu tuag at dalu eu rhenti gan y byddai unrhyw gynnydd posib yn y rhenti'n debygol o effeithio arnynt. Roedd 82% o denantiaid yn cytuno fod y rhenti'n fforddiadwy ac roedd 18% yn anghytuno. Yn ogystal â hynny roedd mwy na 61% o'r holiaduron wedi cael eu cwblhau gan denantiaid sy'n gweithio'n llawn amser sy'n dangos fod yr arolwg wedi targedu tenantiaid nad oeddent o bosib yn gymwys i dderbyn budd-dal tai neu gredyd cynhwysol. Dywedodd hefyd fod Tîm

Cynhwysiant Ariannol yn y Gwasanaethau Tai sydd ar gael i ddarparu cyngor a chefnogaeth i denantiaid.

Pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith bwysigrwydd annog tenantiaid nad ydynt yn gymwys i dderbyn budd-dal tai a chymorth ariannol ar hyn i bryd i gysylltu â'r Cyngor os ydynt yn wynebu caledi ariannol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo:-**

- **cynnydd rhent o 6.7% ar draws yr holl unedau rhent cyffredinol, yn unol â pholisi rhent y Llywodraeth ar gyfer casglu dros 52 wythnos;**
- **cynnydd o 63c yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej;**
- **bod y taliadau gwasanaeth fel y nodir yn adran 6.3 yn yr adroddiad yn cael eu codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol;**
- **gweinyddu'r 'Cynllun Cymorth Rhent', sef cynllun lleol i gefnogi tenantiaid sy'n talu eu rhent eu hunain.**

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD, o dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni.**

**6 GOFAL YCHWANEGOL A CHARTREF GOFAL PRESWYL AETHWY – ACHOSION BUSNES**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r Achos Strategol Amlinellol (ASA) / Achos Busnes Amlinellol (ABA) ar gyfer cyfleuster Gofal Ychwanegol a Chartref Gofal Preswyl Aethwy.

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith eu diolch i Swyddogion a fu'n ymwneud â'r camau i ddatblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol a Chartref Gofal Preswyl Aethwy a nododd y byddai datblygiad o'r fath yn cyfrannu at yr amcan strategol o sicrhau fod gan bob person yr hawl i alw rhywle'n gartref ac i fyw'n annibynnol cyhyd â phosib.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo:-**

- **Yr ASA/ABA ar gyfer y cynllun Gofal Ychwanegol/Cartref Gofal Preswyl Aethwy;**
- **Cyflwyno'r ASA/ABA i Lywodraeth Cymru;**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai, Y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid, yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth**

**(Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r ASA/ABA os bydd angen, ar yr amod nad yw'r newidiadau'n arwain at newidiadau sylweddol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd parti);**

- **Ymrwymo i ariannu gofynion Cyfalaf y Cyngor tuag at gostau'r prosiect, trwy'r Cyfrif Refeniw Tai.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.35am

**Y CYNGHORYDD LLINOS MEDI**
**CADEIRYDD**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 23 Ionawr 2024 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror – Medi 2024;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror – Medi 2024 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Chwefror 2024** | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 2 | **Rheoli Trysorlys 2023/24 – Adolygiad 6 mis** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |
| 3 | **Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |
| 4 | **Strategaeth Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |

Tudalen 19

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Ffioedd a Thaliadau 2024/25** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 6 | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hŷn – Pennu Ffi Safonol 2024/25** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 7 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 8 | **Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 9 | **Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dydd** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 06.02.2024 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028** | | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>06.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |
| 11 | **Cynllun Bioamrywiaeth – Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| | | | | | | | |
| 12 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Chwefror 2024 | |
| 13 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Chwefror 2024 | |



**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Chwefror 2024 | |
| 15 | **Cyllideb Refeniw 2024/25 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 27.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Chwefror 2024 | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |
| 16 | **Cyllideb Gyfalaf 2024/25**<br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>27.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Chwefror 2024 | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |

Tudalen 22

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mawrth 2024** | | | |
| 17 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022/23** | Deilydd Portffolio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2024 | |
| | | | | | | | |
| 18 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| 19 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| 20 | **Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024 – 2054** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2024 - 2029** | | | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | Cyngor Llawn<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau |
| | | | | **Ebrill 2024** | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ebrill 2024 | |
| 23 | **Asesiad y Farchnad Dai Leol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ebrill 2024 | |
| | | | | **Mai 2024** | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2024 | |

Tudalen 24

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mehefin 2024** | | | | | | | |
| 25 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Dafydd Roberts | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2024 | |
| | | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |
| 28 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024



| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |
| 30 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |
| **Gorffennaf 2024** | | | | | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2024 | |
| **Medi 2024** | | | | | | | |
| 32 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Chwefror – Medi 2024

Diweddarwyd 15 Ionawr 2024

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2024/25 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2024 | |
| 34 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2024/25 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2024 | |
| 35 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2024/25 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2024 | |
| 36 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2024/25 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2024 | |



**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **23 IONAWR 2024** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2024/25** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a Rheswm/rhesymau**

Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 7 Mawrth 2024, ond, ar hyn o bryd, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

**(i)** Y gyllideb arfaethedig cychwynnol ar gyfer 2024/25 o £184.219m;

**(ii)** Cynnydd arfaethedig o 9.78% yn y Dreth Gyngor, ynghyd â 1.12% i gwrdd ag Ardoll y Gwasanaeth Tân, sef Cyfanswm o 10.9%, gan olygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,592.37;

**(iii)** Cynnig yn ffurfiol bod y premiwm ar ail gartrefi'n codi o 75% i 100%;

**(iv)** Bod £4.425m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw 2024/25.

Mae'r adroddiad manwl ar baratoi cyllideb ddisymyd 2024/25, y setliad dros dro a chyllido'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm yn Atodiadau 1 a 2.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau wrth lunio'r gyllideb arfaethedig y manylir arni yn yr adroddiad hwn. Roedd yr opsiynau yn ystyried lefel y gwariant net yn seiliedig ar y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru ac opsiynau yn gysylltiedig â lefel y Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb arfaethedig yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng lleihau Gwasanaethau a chynyddu'r Dreth Gyngor.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gosod y gyllideb arfaethedig gychwynnol yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2024/25 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2024/25 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024.

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn heriol ac nid yw'r cyllid gan y llywodraeth yn ddigon i gwrdd â'r costau cynyddol a wynebir gan y Cyngor. Bydd y diffyg hwn mewn cyllid yn effeithio ar allu'r Cyngor i ymateb i heriau a chyfleoedd tymor hir a wynebir gan yr Ynys. Cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb yw hwn a bydd yn cael ei adolygu cyn gosod a chymeradwyo'r gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25. Wrth lunio'r cynnig ar gyfer y gyllideb, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Mae manylion unrhyw gynigion i wneud arbedion yn cael eu nodi yn yr adroddiad. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Bu'r Cyngor yn gweithio gyda Chynghorau eraill, partneriaid rhanbarthol a lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru CLILC i bwyso am y setliad ariannol gorau posib gan Lywodraeth Cymru. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut:- | Bydd y gyllideb arfaethedig yn destun cyfnod ymgynghori a fydd yn caniatáu i ddinasyddion Ynys Môn gyflwyno sylwadau ar y cynigion. |
| 5 | Nodwch effeithiau posib y penderfyniad hwn ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/25 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y gyllideb yn arwain at gynnydd yn y Dreth Gyngor y mae trethdalwyr Ynys Môn yn ei thalu. Mae'r rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a dylai hynny olygu na fydd unrhyw effaith ariannol ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn cael ei gyfyngu. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol) | Ymgorfforwyd sylwadau'r TA yn yr adroddiad ac mae'r TA yn cymeradwyo'r adroddiad drafft. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried pan drafodwyd yr adroddiad hwn gan y TA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |
| 5 | **Eiddo** | Mae unrhyw gynnig sy'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Eiddo. |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae unrhyw gynnig sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm TGCh. |
| **7** | **Sgriwtini** | Fe ystyriwyd y gyllideb arfaethedig gychwynnol gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2024. Penderfynodd y Pwyllgor gytuno â'r gyllideb arfaethedig gychwynnol ac i'r gyllideb arfaethedig symud ymlaen i'r cam ymgynghori. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae'r cynigion yn berthnasol i bob Aelod. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Refeniw Ddrafft 2024/25
- Atodiad 2 – Cyllideb Arfaethedig 2024/25 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Ariannol Tymor Canol 2024/25 – 2025/26 – Gweler Rhaglen y Pwyllgor Gwaith – 26 Medi 2023 – Eitem 10.

**CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2024/25**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi cyllideb refeniw arfaethedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2024/25. Paratoir y gyllideb ar sail y rhagdybiaethau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2023, a'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r arbedion refeniw arfaethedig a nodwyd gan y gwasanaethau unigol ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth, Deilyddion Portffolio unigol a'r Pwyllgor Gwaith wedi trafod y cynigion hyn.

**1.2.** Ni ddisgwylir y byddwn yn derbyn ffigyrau'r setliad terfynol tan gynnar ym Mawrth 2024. Bydd y cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini ar 27 Chwefror 2024, a bydd yn cael ei argymell i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 27 Chwefror 2024, gyda'r gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024. Ni ddisgwylir unrhyw newid sylweddol rhwng y setliad dros dro ar un terfynol ond, petai newid sylweddol yn cael ei wneud, byddai'r gyllideb arfaethedig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn cael ei newid cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

**1.3.** Mae cyllideb 2024/25 yn cael ei gosod mewn cyfnod heriol iawn o safbwynt economi'r DU, gyllido gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r heriau a wynebir gan bob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig, gyda chynnydd yn y galw am wasanaethau, effaith chwyddiant uchel ers dechrau 2022 a gostyngiad mewn termau real yn y cyllid gan y llywodraeth ganolog.

**1.4.** Mae nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr wedi cyhoeddi hysbysiadau Adran 114 (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988), lle mae'r Prif Swyddog Ariannol yn hysbysu bod gwariant yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol yn debygol o fod yn uwch na'r adnoddau sydd ar gael i gyllido'r gwariant hwnnw. Roedd cyhoeddi hysbysiad Adran 114 yn ddigwyddiad prin iawn cyn yr argyfwng ariannol presennol, fodd bynnag, mae 8 Cyngor wedi cyhoeddi hysbysiadau Adran 114 ers 2021, gan gynnwys Cyngor Dinas Birmingham a Chyngor Dinas Nottingham, ac mae nifer o gynghorau eraill yn dweud efallai y bydd rhaid iddynt hwythau gyhoeddi hysbysiadau yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

**1.5.** Yng Nghymru, lle mae model cyllido awdurdodau lleol ychydig yn wahanol i'r model yn Lloegr, nid oes unrhyw Gyngor wedi cyhoeddi hysbysiad Adran 114 eto. Serch hynny, mae'r pwysau ariannol a wynebir gan Gynghorau yng Nghymru yn debyg i'r pwysau yn Lloegr. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn amcangyfrif fod Cynghorau yng Nghymru'n wynebu pwysau o £720m ar eu cyllidebau yn 2024/24, a phwysau ychwanegol o £516m yn 2025/26 a £524m yn 2026/27. Pe byddai'r sefyllfa ar Ynys Môn yn adlewyrchu amcangyfrif CLlLC, yna byddai angen cynnydd o £16m yng nghyllideb y Cyngor yn 2024/25, a chynnydd o £12m yn 2025/26 a 2026/27.

**1.6.** Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn ansicr iawn hefyd, gyda newidiadau sylweddol yn bosib mewn chwyddiant, diffyg eglurder ynghylch lefelau dyfarniadau cyflog yn y dyfodol a chynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol ac atal digartrefedd. Nid oes gan y Cyngor reolaeth dros y mwyafrif o'r ffactorau hyn, ond mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyllido serch hynny, pryd a phan fyddant yn digwydd. Bydd yr adroddiad a ganlyn yn nodi'r ffactorau hyn yn fwy manwl.

**1.7.** Roedd paratoi'r gyllideb refeniw ddrafft dros dro yma ar gyfer 2024/25 felly'n heriol ac anodd. Mae maint y diffyg ariannol sy'n wynebu'r Cyngor lawer uwch na'r hyn a welwyd yn y gorffennol yn ystod y cyfnod llymder gwreiddiol. Bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd a fydd yn effeithio ar y Cyngor, staff, defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion a chymunedau'r Ynys.

## 2. PRIF RAGDYBIAETHAU SY'N CODI O'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL

**2.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi 2023 - Eitem 10) yn nodi nifer o ragdybiaethau (a nodir yn Atodiad 2 yn yr adroddiad hwnnw) ac mae'r rhagdybiaethau hyn wedi cael eu hystyried a'u diweddaru wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymyd ar gyfer 2024/25. Mae'r gyllideb ddisymyd yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i redeg gwasanaethau ar lefel 2023/24 ond wedi'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau wedi'u hymrwymo) ac i adlewyrchu amcangyfrif o gostau yn 2024/25.

**2.2.** Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u hymgorffori yn y gyllideb ddisymyd, ynghyd â newidiadau mwy manwl (newidiadau wedi'u hymrwymo) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd mewn costau sydd eisoes yn hysbys e.e. ymrwymiadau contractyddol. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol, newidiadau mewn cyllid grant sydd eisoes yn hysbys a mân gywiriadau i'r gyllideb y bernir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu'n gywir y costau a wynebir ganddo yn 2024/25.

## 3. Y SETLIAD DROS DRO

**3.1.** Mae'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2023, yn dangos cynnydd o £169.8m yn y cyllid cyffredinol ar gyfer Cymru, ac mae'n cyfateb i gynnydd o 3.1% mewn termau ariannol. Dangosir y manylion yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Setliad Dros Dro 2024/25**

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| | £'m | £'m |
| Cyllid Allanol Cyfun 2023/24 | 123.665 | 5,519.889 |
| | | |
| Addasiad ar gyfer y newid yn Sail y Dreth | 0.201 | 0.000 |
| | | |
| Grantiau blynyddoedd cynt a drosglwyddwyd i Mewn / (Allan) | 0.000 | 0.000 |
| | | |
| **Cyllid Allanol Cyfun 2023/24 wedi'i addasu** | **123.866** | **5,519.889** |
| **Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2024/25** | **126.973** | **5,689.689** |
| **Cynnydd o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun 2023/24** | **3.308** | **169.800** |
| **% Cynnydd o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun 2023/24** | **2.67** | **3.08** |
| **Cynnydd o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun 2023/24 wedi'i addasu** | **3.107** | **169.800** |
| **% Cynnydd o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun 2023/24 wedi'i addasu** | **2.51** | **3.08** |

**3.2.** Mae nifer o wahanol setiau data yn cael eu haddasu yn y fformiwla dyrannu, gan gynnwys poblogaeth, nifer pobl sy'n derbyn budd-daliadau, plant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim, disgyblion ysgol ac ati, ac mae eu heffaith yn wahanol ar ddyraniad pob awdurdod. Mae rhai awdurdodau'n elwa o'r addasiadau hyn, ond maent yn cael effaith negyddol ar awdurdodau eraill ac, o ganlyniad, nid yw pob awdurdod yn derbyn yr un lefel o gynnydd. Yn y setliad dros dro ar gyfer 2024/25, mae'r cynnydd yn amrywio o 4.7% (Casnewydd) i lawr i 2.0% (Gwynedd a Chonwy). Mae'r setliad yn cynnwys llawr sy'n golygu fod pob awdurdod yn derbyn cynnydd o 2% neu fwy. Mae cynnydd Ynys Môn 0.6% yn is na chyfartaledd Cymru, a dyma'r 17eg cynnydd uchaf o blith y 22 awdurdod

**3.3.** Yn ychwanegol i'r cyllid heb ei neilltuo y mae'r Cyngor yn ei dderbyn drwy'r Cyllid Allanol Cyfun, mae pob Cyngor yng Nghymru'n derbyn cyllid refeniw ychwanegol drwy grantiau penodol, sy'n cyllido gwasanaethau penodol yn unol a'r amodau grant a osodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd manylion dyraniadau unigol pob Cyngor yn cael eu cyhoeddi maes o law, ond nodir lefer cyffredinol cyllid grant Cymru yn y setliad dros dro. Mae Tabl 2 yn gosod allan y prif grantiau a dderbynnir gan y Cyngor :-

**Tabl 2**
**Prif Grantiau Refeniw - Dyraniadau Cymru Gyfan 2023/24 a 2024/25**

| Grant | Dyraniad 2023/24 £'000 | Dyraniad 2024/25 £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|
| Grant Addysg Llywodraeth Leol | 381,595 | 378,834 | - 0.72% |
| Addysg Ol 16 | 113,892 | 113,892 | 0.0% |
| Cinio Ysgol am Ddim – Cynradd | 62,988 | 93,500 | + 48.4% |
| Grant Cymorth Tai | 169,202 | 169,348 | + 0.1% |
| Cynllun Argyfwng Bysiau | 42,000 | 39,000 | - 7.7% |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Bysiau | 24,800 | 24,800 | 0.0% |
| Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 16,400 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Digartrefedd | 27,500 | 16,000 | - 41.8% |
| Grant Plant a Chymunedau | 171,744 | 174,583 | + 1.6% |
| Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 45,000 | 35,000 | - 28.6% |
| Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | 39,063 | 41,063 | + 5.2% |
| Grant Trawsnewid Integreiddio CLynyddoedd Cynnar | 6,000 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Mesuray Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) | 3,000 | 3,000 | 0.0% |
| Trai syn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | 2,794 | 2,794 | 0.0% |

## 4. Y PRIF NEWIDIADAU YN Y GYLLIDEB AR GYFER 2024/25

**4.1.** Manylir isod ar y prif wahaniaethau rhwng cyllideb derfynol 2023/24 a chyllideb gychwynnol 2024/25.

### 4.2. Chwyddiant yng Nghyflogau Staff nad ydynt yn Athrawon

**4.2.1.** Bydd costau cyflogau yn newid bob blwyddyn i adlewyrchu newidiadau staff yn ystod y flwyddyn (penodi staff newydd i bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn symud i fyny ar y raddfa gyflog a'r dyfarniad cyflog. Ni chytunwyd ar ddyfarniad cyflog 2023/24, a oedd yn weithredol o fis Ebrill 2023, tan fis Tachwedd 2023. Wrth osod cyllideb 2023/24, rhyddhawyd swm ychwanegol o £2m o gronfeydd cyffredinol y Cyngor, ac roedd hynny ar ben y swm ychwanegol a ganiatawyd yn y cyllidebau gwasanaeth. Roedd y dyfarniad cyflog terfynol ar ffurf cynnydd o £1,925 i bob gweithiwr hyd at bwynt 42 ar y raddfa gyflog, a 3.88% ar gyfer pob graddfa gyflog o bwynt 43 ymlaen. Roedd ystod y cynnydd yn amrywio o 9.42% ar gyfer y pwynt isaf ar y raddfa gyflog, i 3.88% ar gyfer y pwynt uchaf. Ar gyfartaledd, arweiniodd y dyfarniad cyflog at gynnydd o 7.0% yng nghostau cyflog y Cyngor ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon. Roedd y swm a gynhwyswyd yn wreiddiol yn y cyllidebau ar gyfer dyfarniadau cyflog staff nad ydynt yn athrawon yn 2023/24, ynghyd â swm wrth gefn o £2m, yn ddigon i gyllido'r dyfarniad cyflog terfynol ac nid oes angen cyllid ychwanegol yng nghyllideb 2024/25 i gywiro unrhyw ddiffyg yng nghyllideb 2023/24.

**4.2.2.** Wrth benderfynu ar lefel dyfarniad cyflog 2024/25, mae'n rhaid ystyried y bydd chwyddiant yn parhau i ostwng ac, ar ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25, mae disgwyl i chwyddiant fod yn 3.9%, cyn gostwng i 2.5% erbyn mis Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol hefyd yn cael effaith ar lefel y dyfarniad cyflog. O fis Ebrill 2024, bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn £11.44 yr awr, sef dim ond £0.15 yn llai na'r gyfradd fesul awr isaf ar y raddfa gyflog genedlaethol. Oherwydd yr oedi wrth gytuno ar y dyfarniad cyflog blynyddol, mae risg y gallai'r pwynt isaf ar y raddfa gyflog ddisgyn yn is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol ym mis Ebrill 2025, os gwelir cynnydd tebyg yn y Cyflog Byw Cenedlaethol unwaith eto ym mis Ebrill 2025. Mae'r Cyflogwyr yn asesu opsiynau ar hyn o bryd, ond gallai olygu fod dyfarniad cyflog sy'n uwch na chwyddiant yn cael ei gynnig yn 2024/25 i bawb, neu i weithwyr ar bwyntiau isaf y raddfa.

**4.2.3.** Nid yw'r Undebau wedi cyflwyno eu hawliad cyflog eto a, chan nad oes unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gael ar hyn o bryd, mae rhagdybiaeth o 3.5% ar gyfer y dyfarniad cyflog wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddisymyd, sef 0.5% yn uwch na'r ffigwr a ragwelir ar gyfer chwyddiant cyffredinol. Efallai y bydd rhaid addasu'r ffigwr hwn cyn gosod y gyllideb derfynol. Byddai cynnydd ychwanegol o 1% yn y rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant cyflog staff nad ydynt yn athrawon yn golygu cynnydd o £630k yn y gyllideb.

**4.2.4.** Ar sail y rhagdybiaethau a wnaed, mae'r newidiadau i gyflogau yn ychwanegu £2.22m at gyllideb y Cyngor.

## 4.3. Chwyddiant yng Nghyflogau Athrawon

**4.3.1.** Gan fod cyflogau athrawon yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru, mae'r setliad llywodraeth leol yn adlewyrchu'r cynnydd disgwyliedig yn y dyfarniad cyflog. Fodd bynnag, roedd y dyfarniad cyflog terfynol ar gyfer 2022/23 (a oedd yn weithredol o fis Medi 2022) a dyfarniad cyflog 2023/24 (a oedd yn weithredol o fis Medi 2023), 1.5% yn uwch na'r cynnig gwreiddiol.

**4.3.2.** Cyllidwyd effaith dyfarniad cyflog 2022/23 gan Lywodraeth Cymru trwy ddarparu grant ychwanegol i Gynghorau yn 2022/23 a 2023/24. Nid yw dyfarniad cyflog ychwanegol 2023/24, fodd bynnag, wedi cael ei gyllido ac mae'r Cynghorau wedi gorfod cyllido'r cynnydd ychwanegol. Nid yw'r cyllid grant wedi cael ei drosglwyddo i setliad dros dro 2024/25 ac, o ganlyniad, mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido'r dyfarniad cyflog ychwanegol o 1.5% fel rhan o ddyfarniad cyflog 2022/23, yn ogystal a chyllido dyfarniad cyflog 2023/24, a bydd rhaid i'r dyfarniadau cyflog uwch yn ystod y ddwy flynedd flaenorol gael eu cywiro yng nghyllideb 2024/25. Amcangyfrifir y bydd angen swm o £1.1m i gywiro'r gyllideb.

**4.3.3.** Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon a fydd yn weithredol o fis Medi 2024. Bydd y dyfarniad cyflog hwn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng Medi 2024 ac Awst 2025 ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, mae disgwyl i chwyddiant ostwng o 3.2% i 1.7%. Mae amcangyfrif o 2% wedi'i gynnwys ar gyfer y dyfarniad cyflog o fis Medi 2024.

**4.3.4.** Ar sail y rhagdybiaethau a wnaed, bydd effaith cyflogau athrawon yn ychwanegu £1.94m at gyllideb gyflogau'r Cyngor.

## 4.4. Costau Pensiwn

**4.4.1.** Mae'r Cyngor yn cofrestru ei staff ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon a'r Cynllun Pensiynau Athrawon ar gyfer athrawon. Mae cynllun cyfraniadau'r cyflogwr yn cael ei osod gan Weinyddwr y cynllun ac mae'n cael ei ailbrisio'n rheolaidd.

**4.4.2.** Cafodd y cynllun LGPS ei ailbrisio yn ystod 2022/23, a daeth y cyfraddau cyfrannu newydd i rym ym mis Ebrill 2023 am gyfnod o 3 blynedd. Mae'r cynllun yn gosod dwy gyfradd, y brif gyfradd a ddyluniwyd i gyllido'r costau pensiwn cronnus ar gyfer staff, sy'n gysylltiedig â gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol, a chyfradd eilaidd sy'n cwrdd ag unrhyw ddiffyg cyllido yn y gronfa.

**4.4.3.** Pan dderbyniwyd y prisiad terfynol, canfuwyd fod y gyfradd eilaidd yn is na'r amcangyfrif yn y gyllideb ar gyfer 2023/24, a hynny oherwydd bod y gronfa'n perfformio'n well. Gellir gwneud addasiad ar gyfer hyn yn awr yng nghyllideb 2024/25 a bydd yn golygu gostyngiad o £662k yn y gyllideb.

**4.4.4.** Mae'r Cynllun Pensiynau Athrawon yn gynllun cenedlaethol ac mae cyfraddau'r cyfraniadau'n cael eu gosod gan Drysorlys y DU, yn seiliedig ar brisiad Actwari. Mae gwerth y gronfa wedi cael ei ailasesu ac mae cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr wedi codi o 23.68% i 28.68%, sef cynnydd o 21.1% yn y gyfradd cyfrannu. Bydd y newid hwn yn golygu cynnydd o £1.32m yng nghyfraniadau cyflogwr y Cyngor yn 2024/25. Nid yw'r newid hwn yn cael ei gyllido yn y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru ac ni fydd y Trysorlys yn penderfynu tan y flwyddyn ariannol newydd p'un a fydd Llywodraeth y DU yn cyllido'r gost ychwanegol ai peidio.

**4.5. Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Chyflogau**

**4.5.1.** Mae lefel chwyddiant yn y DU wedi bod yn isel iawn ers nifer o flynyddoedd ac roedd yn hawdd iawn ei amcangyfrif. Fodd bynnag, mae chwyddiant wedi codi'n sylweddol ers 2021, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn codi i 11.1% ym mis Hydref 2022, a gwelwyd cynnydd uwch ym mhrisiau rhai nwyddau, gan gynnwys ynni, bwyd, tanwydd a deunyddiau adeiladu. Ers hynny, mae chwyddiant wedi gostwng yn raddol, i 3.9% ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd yn parhau i ostwng, gan gyrraedd targed Banc Lloegr o 2.0% erbyn canol 2025.

**4.5.2.** Mae costau'r Cyngor nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn cynnwys nifer o wahanol gontractau a dulliau caffael ac mae chwyddiant yn cael effaith wahanol ar bob un ohonynt:-

- Contractau tymor hir lle mae'r cyfrifiad chwyddiant wedi'i ymgorffori yn y contract gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant wedi'u penderfynu ymlaen llaw, ac mae'r ffigwr ar gyfer pwynt penodol mewn amser yn cael ei ddefnyddio. Mae'r math hwn o gontract yn tueddu i ffafrio'r Cyngor pan fydd chwyddiant yn codi, ond maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd gyda mathau arbennig o nwyddau sy'n cael effaith ar gostau'r contractwr, e.e. bydd cysylltiad cryf iawn rhwng y ffactor chwyddiant a chost tanwydd ar gyfer y contract casglu gwastraff gan fod hwn yn gost sylweddol i'r contractwr.
- Contractau lle mae'r cynnydd blynyddol yn cael ei gytuno trwy drafodaeth. Maent yn cynnwys, yn bennaf, ffioedd cartrefi gofal preswyl a nyrsio a chontractau gofal eraill. Nid y mynegai prisiau defnyddwyr yw'r prif ffactor o ran y cynnydd yn y prisiau hyn gan mai staffio yw'r brif gost. Mae lefel y chwyddiant yn gysylltiedig â chyflogau, a'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol a'r cyflog byw gwirioneddol yn arbennig.
- Cytundebau fframwaith tymor hir lle mae'r pris blynyddol yn cael ei osod gan y fframwaith ac nid fel rhan o gytundeb unigol rhwng y Cyngor a'r cyflenwr / contractwr. Maent yn cynnwys ein prif gontractau ynni. Unwaith eto, bydd cynnydd yn y pris yn gysylltiedig â ffactorau penodol sy'n ymwneud â'r nwyddau a gyflenwir, yn hytrach na defnyddio'r mynegai prisiau defnyddwyr fel sail i'r cynnydd.
- Nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu pryd a phan fydd eu hangen, naill ai trwy broses dendro untro, derbyn dyfynbrisiau neu godi archeb. Mae'r costau hyn yn ddarostyngedig i bwysau chwyddiant gan fod y pris y mae'r Cyngor yn ei dalu'n ddibynnol ar y pris pan gyflenwir yr archeb neu pan dderbynnir y tendr.

**4.5.3.** Wrth lunio'r gyllideb ddigsymyd, caniatawyd ar gyfer y lefel chwyddiant a benderfynwyd gan gontract penodol. Mae'r ffaith fod y cynnydd ar gyfer chwyddiant ym mhrif gontractau'r Cyngor yn seiliedig ar lefelau chwyddiant yn yr Hydref yn ystod y flwyddyn flaenorol (defnyddir chwyddiant yn Hydref 2023 i gynyddu prisiau o fis Ebrill 2024), wedi gweithio yn erbyn y Cyngor a chaniatawyd ar gyfer cynnydd o rhwng 5% a 7%.

### 4.5.4. Costau Ynni

- Mae'r pwysau ar brisiau ynni wedi lleihau yn ystod 2023/24, yn dilyn cynnydd sylweddol yn 2022/23. Bydd contract ynni corfforaethol y Cyngor yn cael ei adnewyddu ym mis Hydref 2024 a gallai'r penderfyniad hwn effeithio ar gostau ynni'r Cyngor o hynny ymlaen. Er hynny, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan ddarparwr rheoli ynni presennol y Cyngor, amcangyfrifir y bydd cynnydd o thua 10% mewn prisiau nwy a thrydan yn 2024/25, gan ychwanegu £438k at gyllideb y Cyngor. Dylid nodi, fodd bynnag, y bydd buddsoddiad parhaus y Cyngor i leihau defnydd ynni'r Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ac yn lleihau costau ynni'r Cyngor.

### 4.5.5. Chwyddiant yng Nghontractau Gofal y Gwasanaethau Cymdeithasol

- Mae'r Cyngor yn gosod ffi flynyddol ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio bob blwyddyn, ac mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar y fethodoleg ffioedd a ddefnyddiwyd gan Gynghorau yng Ngogledd Cymru ers nifer o flynyddoedd. Mae darparwyr cartrefi gofal wedi cyflwyno nifer o sylwadau, yn lleol a chenedlaethol, yn nodi nad yw'r ffioedd presennol yn ddigonol ac na fydd eu busnesau'n gynaliadwy oni bai eu bod yn derbyn cynnydd sylweddol.
- Mae nifer o ddarparwyr yn anfodlon derbyn cleientiaid am y ffi a osodwyd gan y Cyngor ac mae'r gost wirioneddol yn uwch. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n yn edrych ar y mater hwn i geisio cytuno ar fethodoleg gyllido i'w defnyddio, pa gostau sydd angen eu cynnwys, y sylfaen ar gyfer y costau hynny a'r elw ar fuddsoddiad y gall darparwyr ei ddisgwyl. Mae'n annhebygol y deuir i gytundeb cyn gosod cyllideb 2024/25. Mae'n rhaid i Ynys Môn ystyried hefyd y math o ddarparwyr sy'n gweithredu'n lleol. Maent yn ddarparwyr bychan ac nid ydynt yn wynebu'r un fath o bwysau ar gostau â darparwyr mwy sy'n gweithredu mewn ardaloedd yn nes at ffin Lloegr.
- Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn ffactor sylweddol yng nghostau'r sector preswyl a nyrsio a'r sector gofal cartref, gan fod darparwyr yn defnyddio'r ffigwr hwn fel man cychwyn ar gyfer pennu cyflogau eu gweithwyr. O fis Ebrill 2024, bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi o £10.42 i £11.44, sef cynnydd o 9.8%. Mae hwn yn gost nad yw'n bosib i ddarparwyr ei osgoi ac mae'n debygol o gael ei drosglwyddo i'r Cyngor trwy ffioedd uwch. Ar ôl ystyried y costau sy'n cael eu heffeithio gan y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r costau sy'n cael eu heffeithio gan lefel cyffredinol chwyddiant, mae rhagdybiaeth o 8% wedi'i gynnwys ar gyfer ffioedd preswyl a nyrsio. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £700k yng nghostau'r Cyngor (heb ystyried y cynnydd yn y galw).
- Bydd y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol hefyd yn effeithio ar gyllidebau gofal eraill, gan gynnwys gofal cartref, lleoliadau preswyl yn y Gwasanaethau Oedolion (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu) a gofal a ddarperir trwy'r cynllun taliadau uniongyrchol. Os yw'r gofal yn cael ei ddarparu gan leoliad preswyl neu nyrsio, mae'r rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant fel y nodir uchod, ond, ar gyfer gofal cartref a chostau taliadau uniongyrchol, rhagdybir y bydd y costau'n cynyddu yn unol â'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol, sef 9.8%. Bydd y cynnydd yn ychwanegu £1.41m at gyllideb y Cyngor.

### 4.5.6. Chwyddiant Cyffredinol

- Mae chwyddiant cyffredinol (y mynegai prisiau defnyddwyr) wedi gostwng o'i lefel uchaf ym mis Hydref 2022, sef 11%, i'r gyfradd bresennol o 3.9% (Rhagfyr 2023). Mae disgwyl i chwyddiant ostwng ymhellach yn ystod y misoedd nesaf, a chyrraedd 2.5% erbyn mis Mawrth 2025. Amcangyfrifir y bydd chwyddiant yn 3.1% ar gyfartaledd yn 2024/25, ynghyd â chywiriad bychan yn y swm a ganiatawyd yng nghyllideb 2023/24 (0.7%). Golyga hyn y bydd 3.8% yn cael ei ddefnyddio fel ffigwr chwyddiant cyffredinol ar gyfer y rhan fwyaf o gyllidebau nad oes cyfradd chwyddiant penodol ar eu cyfer.
- Amcangyfrifir y bydd cynnydd o £1.76m yng nghyllideb y Cyngor oherwydd chwyddiant cyffredinol.

#### 4.5.7. Ffioedd a Thaliadau

- Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys nifer o ffioedd a thaliadau, gyda rhai'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru, deddfwriaeth benodol neu gyrff allanol eraill, tra bod eraill yn cael eu pennu gan y Cyngor. Yn 2023/24, roedd cyfanswm cyllideb ffioedd a thaliadau'r Cyngor yn £12.47m, gyda £5.7m o dan reolaeth y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi pennu cynnydd o 5% yn y ffioedd a thaliadau y gellir eu rheoli, ond caiff bob gwasanaeth benderfynu ar ffioedd a thaliadau unigol. Rhagwelir y bydd y cynnydd o 5% yn cynhyrchu £285k o incwm ychwanegol.

- Mae ffioedd a thaliadau statudol a Grantiau eraill gan y Llywodraeth yn cyfrannu tua £30m tuag at gyllideb refeniw net 2023/24. Byddai cynnydd o 3%, yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr a chynnydd yn y Cyllid Allanol Cyfun, yn cynhyrchu swm ychwanegol o £971k, er bod y setliad dros dro yn dangos y bydd rhai grantiau'n cael eu rhewi ac eraill eu cwtogi.

### 4.6. Niferoedd Disgyblion

Bob blwyddyn, mae effaith y newid mewn niferoedd disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses gosod cyllideb, ac mae niferoedd disgyblion ym mis Medi 2023 yn cael eu defnyddio fel sail i gyllideb 2024/25. Ar gyfer 2024/25, mae niferoedd disgyblion cynradd wedi parhau i ostwng, gyda gostyngiad pellach o 156 disgybl, tra bod 58 yn fwy o ddisgyblion uwchradd. Effaith net y newidiadau hyn yw gostyngiad o £467k yn y gyllideb ar gyfer ysgolion cynradd a chynnydd o £263k yn y gyllideb ar gyfer ysgolion uwchradd.

Ar hyn o bryd mae Canolfan Addysg y Bont yn gweithredu ar gapasiti llawn ac ni all gymwys disgyblion ychwanegol. Ni fu newid yn niferoedd y disgyblion yng Nghanolfan Addysg y Bont. Er hynny, mae dwyster anghenion dysgu'r disgyblion sy'n cael eu haddysgu yng Nghanolfan Addysg y Bont wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan olygu bod angen mwy o staff i addysgu pob disgybl. Nid yw'r fformiwla cyllido'n adlewyrchu'r newid hwn ac, oherwydd hynny, mae'r gyllideb ysgolion arbennig wedi cael ei hail-ddatgan a'i chynyddu gan £271k i adlewyrchu'r ffaith fod anghenion y disgyblion wedi newid.

### 4.7. Ardoll y Gwasanaeth Tân

Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys ardollau a godir ar y Cyngor gan gyrff eraill sydd â phŵer statudol i osod ardoll. Y brif ardoll a godir yw ardoll Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sydd yn gosod ardoll gyffredinol ar gyfer y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru, cyn iddi gael ei dyrannu rhwng y chwe awdurdod ar sail y boblogaeth. Yn ystod 2023, cynhaliodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru ymgynghoriad ynglŷn â newidiadau i'r gwasanaeth ac mae'n bwriadu cyflwyno cynnydd o 10.8% yn yr ardoll ar gyfer y chwe awdurdod, gan greu cynnydd o £4.8m yn y gyllideb. Fodd bynnag, oherwydd newid yn y boblogaeth, mae cyfraniad Ynys Môn tuag at yr ardoll yn cynyddu o 9.92% i 10.03% o gyfanswm yr ardoll. Mae hyn yn golygu cynnydd o £533k yn yr ardoll y bydd rhaid i'r Cyngor ei dalu, ac mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1.12% yn y Dreth Gyngor. Bydd yr ardoll a gyllidir gan y Cyngor yn cynyddu i £4.936m.

### 4.8. Ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforedig

Mae'n ofynnol yn awr i'r 6 Awdurdod yng Ngogledd Cymru sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig i fod yn gyfrifol am bolisi strategol ym maes cludiant a chynllunio, a datblygu economaidd ar lefel ranbarthol. Roedd cyfran y Cyngor o'r ardoll a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn £76k. Er nad yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi gwneud penderfyniad terfynol, ni ragwelir cynnydd yn yr ardoll yn ystod 2024/25.

### 4.9. Costau Cyllido Cyfalaf

Mae Costau Cyllido Cyfalaf yn cynnwys y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI ), costau llog blynyddol ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau. Yn 2022, newidiodd y Cyngor y polisi DRI, gan fabwysiadu'r dull blwydd-dal, ac arweiniodd hyn at ostyngiad sylweddol yn y gyllideb ar gyfer 2023/24. Serch hynny, mae'r dull blwydd-dal yn golygu fod y gost DRI yn cynyddu bob blwyddyn, a hynny heb ddwyn i ystyriaeth unrhyw fenthyciadau newydd sydd wedi eu cymryd.

Mae balansau arian parod y Cyngor wedi bod yn uchel ers 2020, a'r strategaeth a fabwysiadwyd oedd defnyddio'r balansau arian parod yn hytrach na benthyca'n allanol. Fodd bynnag, gan fod cronfeydd wrth gefn y Cyngor a balansau ysgolion wedi gostwng, mae balansau arian parod y Cyngor yn agosáu at yr isafswm a osodwyd, a bydd rhaid cymryd benthyciadau newydd yn 2024/25 (amcangyfrifir hyd at £15m). Bydd hyn yn cynhyrchu costau DIR a llog ychwanegol o £847k.

Roedd cyfraddau llog yn eithriadol o isel rhwng 2020 a 2022 ac, o ganlyniad, ychydig iawn o incwm a gynhyrchwyd gan fuddsoddiadau. Ond newidiodd y sefyllfa yn 2022 a pharhau i godi wnaeth cyfraddau llog yn ystod 2023. Roedd y cynnydd yn y gyfradd llog a balansau arian parod uchel yn caniatáu i'r Cyngor osod cyllideb o £1.036m ar gyfer 2023/24. Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn parhau ar y lefel bresennol tan ganol 2024 o leiaf, ac mae disgwyl iddynt ostwng yn raddol wedi hynny. Serch hynny, ac fel y nodir uchod, mae lefel yr arian parod sydd ar gael i'w fuddsoddi wedi gostwng, felly, bydd yr elw ar fuddsoddiadau'n is yn 2024/25 o gymharu â 2023/24. Yr amcangyfrif ar gyfer y gyllideb yw £670k, sef gostyngiad o £366k.

Effaith cyffredinol y DRI a'r costau llogau yw cynnydd o £1.42m yn y gyllideb cyllido cyfalaf.

### 4.10. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Ers 2011, mae'r gost o ddarparu cymorth ariannol i'r rhai hynny sydd angen cymorth i dalu eu Dreth Gyngor wedi ffurfio rhan o gyllideb y Cyngor, ond mae'r swm sy'n cael ei gynnwys yn Asesiad Gwariant Safonol y Cyngor wedi aros fwy neu lai'r un fath. Gan fod lefel y Dreth Gyngor wedi cynyddu a nifer y bobl sy'n hawlio wedi newid, mae Trethdalwyr y Cyngor wedi gorfod ysgwyddo costau ychwanegol y cynllun. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnydd yn y gyllideb hon a'r cynnydd terfynol yn y Dreth Gyngor. Wrth ganiatáu am hynny, a chynnydd o 1% yn yr achosion, bydd angen cynnydd o £681k yn y gyllideb.

### 4.11. Cyllidebau sy'n cael eu harwain gan y galw

Nid yw'r rhagolygon presennol ar gyfer 2023/24 yn dangos y bydd gan y Cyngor orwariant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hynny'n awgrymu nad oes unrhyw bwysau ar y gyllideb sydd ddim yn cael ei gyllido. Serch hynny, nid yw'r ffigwr cyffredinol yn cynrychioli'r sefyllfa wirioneddol gan fod y gyllideb yn cynnwys gorddarpariaeth fydd yn cael ei gywiro yn y gyllideb ddisymyd, arbedion unwaith ac am byth yn gysylltiedig â swyddi gwag a chostau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, yn ogystal â grantiau untro ychwanegol, ac mae cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sy'n darparu cyllid unwaith ac am byth, yn cael eu defnyddio gan ostwng lefel y gorwariant.

Trwy roi'r ffactorau hyn o'r neilltu, amlygir fod dwy brif gyllideb yn wynebu pwysau o ran galw a chostau, a bydd angen eu cywiro yn y gyllideb ar gyfer 2024/25. Y meysydd sy'n wynebu pwysau yw cyllidebau gofal cymdeithasol, sydd yn bennaf yn darparu gwasanaethau statudol i'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. Mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu'r gwasanaethau hyn a gall fod gofyn brys i ddarparu gofal i sicrhau fod iechyd neu ddiogelwch y cleient yn cael ei gynnal. Gall canfod lleoliadau ar fyr rybudd, mewn sector lle mae'r galw'n uwch na'r cyflenwad, gynyddu costau'n sylweddol a gall hyn fod tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

Amcangyfrifir fod cynnydd mewn achosion a chostau cynyddol yn y sector gofal yn golygu fod angen cywiro'r gyllideb (a hynny'n ychwanegol i chwyddiant) a bod angen ychwanegu £2.9m ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion a £0.9m ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae'r symiau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddisymyd.

**4.12. Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor**

Mae premiwm y Dreth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi'n cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor, ac mae cyfran o'r incwm ychwanegol hwn yn cyllido cynlluniau i gynorthwyo pobl ifanc leol i brynu eu tŷ eu hunain ar yr Ynys. Yn 2023/24, dyrannwyd £1.2m o'r cyllid ychwanegol i'r perwyl hwn, ynghyd â £300k i roi gofyniad cynllunio diwygiedig mewn perthynas ag ail gartrefi (erthygl 4) ar waith, a'i weinyddu. At ddibenion y gyllideb ddisymyd, mae'r gyllideb o £1.2m yn parhau, ond dilëwyd y swm o £300k.

**4.13. Cyllidebau wrth Gefn**

Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, mae nifer o gyllidebau wrth gefn yn cael eu hymgorffori yn y gyllideb i gwrdd â chostau tymor penodol, risgiau posib a all fod angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn, neu fel cyllidebau wrth gefn cyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i'r gyllideb wynebu pwysau ychwanegol neu yn sgil digwyddiadau annisgwyl. Mae cael cyllidebau wrth gefn yn bwysig iawn ac mae'n lliniaru'r risg fod gwariant annisgwyl yn cael effaith andwyol ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Mae oed a chyflwr presennol stoc asedau'r Cyngor yn cynyddu'r risg y bydd y Cyngor yn wynebu mwy o wariant annisgwyl er mwyn caniatáu i wasanaethau barhau i gael eu darparu o adeiladau lle mae problemau mawr yn codi.

Roedd cyfanswm y gyllideb yn 2023/24 yn £1.018m ac, yn dilyn ail-asesu'r sefyllfa, y gofyn ar gyfer cyllideb 2024/25 yw £1.226m.

**4.14. Newidiadau eraill y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt**

Wrth lunio'r cyllidebau disymyd, mae nifer o fân gywiriadau wedi cael eu gwneud i adlewyrchu newidiadau angenrheidiol neu benderfyniadau blaenorol i gynyddu cyllidebau unigol. Effaith net y newidiadau hyn yw cynnydd o £450k yn y gyllideb ddisymyd gyffredinol. Mae'r prif newidiadau'n ymwneud â gostyngiad yng nghyfraniad grant Y Gymdeithas tuag at yr Oriel, £123k, y gost ychwanegol o ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, £29k, ac effaith y newid yn nifer y diwrnodau ysgol, £92k.

## 5. Y SEFYLLFA GYLLIDO

**5.1.** Ar ôl ystyried y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru (fel y caiff ei nodi ym mharagraff 3) a'r prif newidiadau i'r gyllideb (fel y cânt eu nodi ym mharagraff 4), mae'r sefyllfa gyllido cyn cynyddu'r Dreth Gyngor yn cael ei nodi yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Y Bwlch Cyllido yng Nghyllideb 2024/25**

| | Cyf. | £'m | £'m |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2023/24** | | | **174.570** |
| **Y Prif Addasiadau i'r Gyllideb (fel y cânt eu nodi ym Mharagraff 4)** | | | |
| Chwyddiant Cyflogau a Chostau Staffio Eraill | 4.2 i 4.3 | 4.160 | |
| Addasiadau Pensiwn yn sgil ailbrisio Pensiynau | 4.4 | 0.653 | |
| Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Chyflogau | 4.5 | 2.750 | |
| Niferoedd Disgyblion | 4.6 | 0.067 | |
| Ardollau | 4.7 i 4.8 | 0.514 | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 4.9 | 1.424 | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 4.10 | 0.681 | |
| Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y Galw | 4.11 | 3.816 | |
| Cyllidebau wrth Gefn a newidiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt | 4.12 i 4.14 | 0.357 | |
| | | | 14.422 |
| **Cyllideb Refeniw Net Ddisymyd 2023/24** | | | **188.992** |
| **Cyllidir Gan** | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | | (101.631) | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | | (25.342) | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | | | (126.973) |
| Cyllideb Dreth Gyngor 2023/24 (wedi'i addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a chynnydd yn y premiwm ar ail gartrefi) | | | (47.628) |
| **Cyfanswm Cyllid cyn cynyddu'r Dreth Gyngor** | | | **(174.601)** |
| **(Gwarged) / Diffyg Cyllido (cyn gwneud unrhyw newid i'r Dreth Gyngor)** | | | **14.391** |

**5.2.** Byddai angen cynnydd o 30.2% yn y Dreth Gyngor i gyllido'r diffyg o £14.39m. Byddai hyn yn golygu fod y gost ar gyfer eiddo Band D yn £1,869.49, sef cynnydd blynyddol o £433.63 a chynnydd o £8.34 yr wythnos. Er mwyn lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor, byddai'n rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor neu wneud arbedion yn y gyllideb refeniw. Mae pob £1m o gronfeydd wrth gefn a ddefnyddir, neu arbedion a weithredir, yn golygu gostyngiad o 2.43% yn y cynnydd yn y Dreth Gyngor.

## 6. RISGIAU CYLLIDEBOL

**6.1.** Wrth osod y gyllideb, mae angen asesu nifer o risgiau ariannol a allai greu costau ychwanegol i'r Cyngor. Mae'r gyllideb arfaethedig yn darparu ar gyfer rhai o'r risgiau hyn, ond nid yw risgiau eraill wedi eu cynnwys a phe bai'r risg yn cael ei wireddu, gan greu cost ariannol yn 2024/25, byddai balansau a chronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn cwrdd â'r gost. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'n amlwg fod nifer o'r risgiau hynny tu hwnt i reolaeth y Cyngor e.e. y galw am ddarparu gwasanaethau statudol, cost pensiynau, ardollau sy'n cael eu pennu gan gyrff eraill, gofynion gwasanaeth newydd neu wahanol a bennir gan Lywodraeth Cymru a / neu Lywodraeth y DU.

**6.2.** Rhagwelir y bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol heb eu dyrannu gwerth £11.1m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ynghyd â £3.3m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig y gellir eu dychwelyd i falansau cyffredinol y Cyngor. Fel canllaw cyffredinol, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod isafswm ar gyfer y balans gyffredinol o 5% o'r gyllideb refeniw net. Ar sail y gyllideb refeniw net ddisymyd ar gyfer 2024/25, a ddaw i gyfanswm o thua £190m, yr isafswm fyddai ei angen yw £9.5m. Byddai hyn yn gadael swm posib o £4.9m a fyddai ar gael i gynorthwyo i gyllido'r gyllideb refeniw dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, ond mae'n rhaid nodi fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei wanhau wrth ostwng lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig, a gallai arwain at broblemau ariannol yn y dyfodol pe byddai'n rhaid cyllido unrhyw wariant annisgwyl sylweddol e.e. cyllido gorwariant yn y gyllideb refeniw yn y dyfodol.

**6.3.** Mae sefyllfa bresennol cyllideb refeniw 2023/24 yn amcangyfrif gorwariant bychan o 0.2% yn y gyllideb net ac, er bod rhoi amcangyfrif cywir o lefel terfynol y gwariant yn anodd, nid oes disgwyl ar hyn o bryd i'r gorwariant godi'n sylweddol ac ni fydd yn cael effaith sylweddol ar lefel y balansau cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

**6.4.** Bu'n rhaid gwneud nifer o ragdybiaethau wrth lunio'r gyllideb refeniw ddrafft. Mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar farn broffesiynol y Tîm Cyllid a staff eraill y Cyngor, rhagolygon allanol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU neu gyrff proffesiynol eraill, a gwybodaeth hanesyddol ac ystadegol arall. Mae effaith bosib camgymeriadau yn y rhagdybiaethau ar y gyllideb refeniw yn cael eu nodi isod:-

- **Dyfarniad Cyflog –** fel y nodwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae'r gyllideb wedi cael ei chynyddu i adlewyrchu amcangyfrif o'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2024/25, ond mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch y dyfarniadau cyflog. Nid yw'r Undebau wedi cyflwyno eu hawliad ar gyfer 2024/25 eto a gallai'r dyfarniad cyflog fod yn uwch na'r 3.5% y caniatawyd ar ei gyfer. Mae pob 1% uwchben y ffigwr hwn yn ychwanegu tua £1m at fil cyflogau'r Cyngor.

- **Y Cyflog Byw Cenedlaethol –** cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai cynnydd o 9.8%, i £11.44 yr awr, yn y Cyflog Byw Cenedlaethol (sef yr isafswm cyflog yn flaenorol) ym mis Ebill 2024. Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn rhoi pwysau ar gyllideb y Cyngor mewn dwy ffordd h.y. yr hyn y mae'n ei dalu i'w staff ei hun a'r hyn y mae ei brif gontractwyr yn ei dalu i'w staff.

- Y pwynt isaf ar raddfa gyflog y Cyngor ar gyfer 2023/24 yw £22,737, neu £11.79 yr awr, sef dim ond £0.35 yn uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Wrth gwrs, bydd dyfarniad cyflog yn cael ei dalu ym mis Ebrill 2024, gan gynyddu'r ffigwr hwn a chreu mwy o fwlch. Er hynny, dylid nodi fod y raddfa genedlaethol yn cynnwys pwynt sydd yn is na'r isafswm a delir gan y Cyngor, ac mae'r pwynt isaf yn £11.58 yr awr ar hyn o bryd, dim ond £0.17 yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Pe bai cynnydd sy'n uwch na chwyddiant yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ym mis Ebrill 2025, byddai angen cynnydd tebyg yn y graddfeydd cyflog i sicrhau fod y pwynt isaf yn parhau i fod yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

  Mae nifer fawr o staff a gyflogir gan brif gontractwyr a darparwyr gwasanaeth y Cyngor yn derbyn cyflog sydd yn cyfateb i'r Cyflog Byw Cenedlaethol, neu o gwmpas y lefel honno. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sector gofal (cartrefi gofal preswyl a nyrsio, gofal cartref ac ati). Byddai cynnydd i'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn arwain at gynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol (ar hyn o bryd, mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn £1.58 yr awr yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol). Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Cynghorau ddarparu digon o gyllid i ganiatau darparwyr i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a bydd y cynnydd yn y ffigwr yma'n cael ei adlewyrchu yn y cynnydd mewn ffioedd y mae'n rhaid i'r Cyngor eu talu i'r contractwyr a'r darparwyr gwasanaeth. Er y caniatawyd ar gyfer cynnydd mewn cyllid, mae risg na fydd yn ddigon i gwrdd â'r hyn y bydd darparwyr yn gofyn amdano gan y gallant hwythau hefyd wynebu pwysau oherwydd chwyddiant cyffredinol, yn enwedig costau bwyd, ynni a thanwydd.

- **Chwyddiant Cyffredinol –** Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae lefel chwyddiant cyffredinol mewn prisiau wedi gostwng a disgwylir iddo barhau i ostwng tuag at y targed o 2% a osodwyd gan Fanc Lloegr. Fodd bynnag, mae risg y gallai chwyddiant ostwng yn araf, neu nad yw chwyddiant mewn prisiau rhai nwyddau neu wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu prynu yn gostwng yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr. Wrth i raddfa chwyddiant ostwng, mae llai o risg fod y gyllideb yn cynnwys lwfans sydd yn sylweddol uwch neu is na'r gofyn.

- **Costau Ynni –** Mae'r Cyngor yn prynu nwy a thrydan trwy gytundeb fframwaith, ac mae prisiau'n codi bob mis Hydref. Roedd y cynnydd ym mis Hydref 2023 yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond mae risg y bydd prisiau'n codi o ganlyniad i ffactorau allanol cyn i'r prisiau newid eto ym mis Hydref 2024. Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer cynnydd pellach o 10% mewn costau yn 2024/25. Byddai datrys y rhyfel yn Wcráin a Phalesteina yn llacio pwysau ar brisiau ynni'n sylweddol ond, i'r gwrthwyneb, gallai prisiau gynyddu'n sylweddol unwaith eto pe bai'r rhyfeloedd hyn yn dwysau.

- **Y Galw am Wasanaethau –** Mae'r gyllideb yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â lefel bresennol y galw mewn rhai gwasanaethau lle gall y galw amrywio (Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol Oedolion, Digartrefedd, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau'n creu costau ariannol ychwanegol i'r Cyngor na fyddai darpariaeth ar eu cyfer yn y cyllidebau presennol.

- **Incwm Grantiau –** Fel y nodir yn Nhabl 2 uchod, yn ogystal â'r cyllid a dderbyniwyd trwy'r Cyllid Allanol Cyfun, mae'r Cyngor yn derbyn lefelau sylweddol o gyllid ychwanegol ar ffurf grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Pan fydd lefel cyllid grant penodol yn gostwng, neu nid yw'n cynyddu i adlewyrchu'r cynnydd yng nghostau, nid yw bob amser yn bosib ymateb yn gyflym i'r newid gan fod y gwasanaeth a gyllidir gan y grant wedi'i ymgorffori yn y gwasanaeth a gyllidir gan gyllideb graidd y Cyngor. Felly, mae oedi rhwng gostwng y cyllid a gallu'r Cyngor i leihau'r costau cysylltiedig drwy aildrefnu'r gwasanaeth.

- **Targedau Incwm o Ffioedd a Thaliadau –** Wrth i'r argyfwng costau byw barhau i effeithio ar incwm gwario teuluoedd, mae risg na fydd cymaint o ddefnydd o rai o wasanaethau'r Cyngor e.e. gwasanaethau hamdden, meysydd parcio, ceisiadau cynllunio a cheisiadau rheoliadau adeiladu. O ganlyniad, mae risg na fydd y targedau ar gyfer cyllidebau ffioedd a thaliadau'n cael eu cyflawni.

## 7. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**7.1.** Wrth lunio'r gyllideb ddisymud, mae nifer o ragdybiaethau'n cael eu gwneud mewn perthynas â chwyddiant yn gysylltiedig â chyflogau a phrisiau. Mewn perthynas â chyllideb ddatganoledig ysgolion, mae'r gyllideb ddisymud yn caniatáu ar gyfer cynnydd o £4.596m (9.3%) mewn termau ariannol, gan olygu fod cyfanswm y gyllideb ddatganoledig ysgolion yn £53.856m (heb gynnwys y gyllideb ôl-16). Bwriedir rhoi cap o 6.8% ar y cynnydd ar gyfer chwyddiant ac mae hyn yn golygu gostyngiad o £1.246m yn y gyllideb ddisymud.

**7.2.** Staffio yw'r brif gost a wynebir gan y Cyngor ac mae lleihau'r gweithlu cyffredinol yn gorfod bod yn rhan o unrhyw strategaeth i osod cyllideb gytbwys. Mae trosiant cyson o staff yn ystod y flwyddyn ac, wrth i swyddi ddod yn wag, bydd rheolwyr yn adolygu pob swydd a phenderfynu a oes modd cyflawni amcanion y swydd mewn ffordd mwy cost effeithiol. Nid yw'n bosib ar hyn o bryd nodi swyddi unigol a fydd yn creu arbedion, ond gosodwyd targed o £1m. Efallai na fydd yn bosib gwireddu'r arbedion o £1m yn llawn erbyn Ebrill 2024, a bydd rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyllido'r gost yn y tymor byr, hyd nes bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni.

**7.3.** Mae nifer o fesurau eraill wedi cael eu nodi i greu arbedion ac maent yn cael eu crynhoi yn Nhabl 4 isod ac mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

7.4.

| Tabl 4<br>**Crynodeb o Arbedion Arfaethedig yn y Gyllideb ar gyfer 2024/25** | |
|---|---|
| | **£'000** |
| Effeithlonrwydd / Moderneiddio / Rhesymoli gwasanaethau | 607 |
| Codi incwm yn fwy na chwyddiant / Cynhyrchu incwm o ffynonellau newydd | 365 |
| Gostwng Grantiau a Chyfraniadau i Sefydliadau Allanol | 73 |
| Cwtogi Gwasanaethau | 282 |
| **Cyfanswm Arbedion Arfaethedig yn y Gyllideb** | **1,327** |

**7.5.** Yn 2023/24, dyrannodd y Cyngor £1.2m o'r premiwm a gasglwyd i gyllido grantiau tai a benthyciad i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf. Mae tanwariant a gafwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol yn cael ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn clustnodedig ac, ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor ddigon o gyllid yn y cronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido'r cyllidebau hyn, gan olygu nad oes angen y dyraniad blynyddol. Argymhellir, felly, nad yw'r gyllideb o £1.2m yn cael ei chynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2024/25, am flwyddyn yn unig, a'i bod yn cael ei hadfer yn 2025/26.

**7.6.** Yn seiliedig ar y newidiadau uchod i'r gyllideb ddisymud, byddai'r bwlch cyllido'n gostwng i £184.219m.

**7.7.** Amcangyfrifir y bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £11.1m ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24, ond mae hyn ar yr amod na cheir unrhyw orwariant sylweddol neu gynnydd yn y galw am wasanaethau statudol yn ystod ail hanner 2023/24. Polisi cyffredinol y Cyngor yw cadw o leiaf 5% o werth y gyllideb refeniw net fel balansau cyffredinol. Ar sail y gyllideb ar gyfer 2024/25, byddai isafswm y balans cyffredinol yn £9.5m. Byddai defnyddio £1.6m o'r balansau cyffredinol yn darparu cyllid ychwanegol i gau'r bwlch cyllido ac yn cynnal y balansau cyffredinol ar lefel sydd yn unol â pholisi'r Cyngor.

**7.8.** Dylid nodi hefyd fod gan y Cyngor cronfeydd wrth gefn clustnodedig gwerth £19.6m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn sy'n weddill wedi nodi y gellid dychwelyd £3.3m i'r balansau cyffredinol os oes angen, a byddai hynny'n digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pan fydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn hysbys.

**7.9.** Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi o 75% i 100% a bydd y newid hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r penderfyniad terfynol ar y Dreth Gyngor a roddir gerbron y Cyngor ym mis Mawrth 2024. Yn seiliedig ar sail y dreth a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2023, bydd y newid hwn yn cynhyrchu swm ychwanegol o £545k (a hynny cyn ychwanegu unrhyw gynnydd yn lefel y Dreth Gyngor). Bwriedir defnyddio'r incwm ychwanegol i gyllido costau gwasanaethau sy'n rhoi cymorth cyffredinol i drigolion Ynys Môn sy'n cael eu heffeithio gan y nifer uchel o ail gartrefi (cymorth lles, atal digartrefedd, gofal cymdeithasol, datblygu economaidd) a chynorthwyo i gefnogi'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu heffeithio yn ystod y tymor ymwelwyr (rheoli cyrchfan, gwastraff, toiledau cyhoeddus).

**7.10.** Mae pob 1% o gynnydd yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu £442k o dreth gyngor safonol a £35k o bremiwm ar dai gwag ac ail gartrefi, gan roi cyfanswm o £477k mewn incwm gros. Ar sail y gost i eiddo Band D yn 2023/24, sef £1,435.86, mae bob 1% o gynnydd yn golygu cynnydd o £14.39 yn y gost i eiddo Band D, neu £0.28 yr wythnos. Ar hyn o bryd, dreth gyngor y Cyngor yw'r 5ed isaf yng Nghymru ac mae'n £106 yn is na chyfartaledd Cymru.

**7.11.** Mae'r ffaith fod y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn is na'r chwyddiant a'r pwysau ar alw am wasanaethau a wynebir gan y Cyngor yn golygu bod angen cynnydd yn y Dreth Gyngor sy'n uwch na chwyddiant er mwyn galluogi'r Cyngor i osod cyllideb sy'n cael ei gyllido'n llawn. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell cynnydd o 9.78% yn y Dreth Gyngor, ynghyd â chynnydd ychwanegol o 1.12% i gyllido'r cynnydd yn ardoll y Gwasanaeth Tân. Gyda'i gilydd, mae hyn yn gynnydd o 10.9% ac mae'n golygu fod y gost ar gyfer eiddo Band D (heb gynnwys praeseptau'r Heddlu a Chynghorau Tref / Cymuned) yn codi i £1,592.37, sef cynnydd o £156.51 y flwyddyn, neu £3.01 yr wythnos. Bydd y cynnydd hwn yn cynhyrchu tua £5.194m o gyllid ychwanegol.

**7.12.** Ar sail yr uchod, mae cyllideb refeniw arfaethedig cychwynnol 2024/25 wedi'i nodi yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**
**Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2024/25**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Ddisymud 2024/25 (yn unol â Thabl 3)** | | **188.992** |
| **Addasiadau Ychwanegol i'r Gyllideb** | | |
| Cyllido ysgolion 2.5% yn is na chwyddiant | (1.246) | |
| Lleihau'r Gweithlu | (1.000) | |
| Arbedion Cyllidebol Eraill – Tabl 4 ac Atodiad 3 | (1.327) | |
| Defnyddio cyllid y Premiwm i gefnogi costau gwasanaethau | (1.200) | |
| | | (4.773) |
| **Cyllideb Arfaethedig Refeniw Net Gychwynnol 2024/25** | | **184.219** |
| **Cyllidir Gan** | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 101.631 | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | 25.342 | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | | 126.973 |
| Dreth Gyngor (yn cynnwys y premiwm a chynnydd o 10.9%) | | (52.821) |
| Balansau Cyffredinol y Cyngor | | (1.600) |
| Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig y Cyngor | | (2.825) |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **184.219** |

**7.13.** Mae'r arbedion cyllideb o £4.733m a nodir uchod yn ymwneud â chyllid craidd y Cyngor yn unig. Bydd angen adolygu darpariaeth gwasanaeth a gyllidir gan grantiau. O ystyried yr her ariannol a wynebir gan y Cyngor, nid yw'n bosib i wasanaethau a gyllidir gan grant i barhau ar yr un lefel os yw'r grant yn cael ei dorri neu ddim yn cynyddu yn unol â'r costau uwch. Bydd hyn yn arwain at ostyngiadau mewn gwasanaethau, yn ychwanegol i'r cynigion a nodir yn yr adroddiad yma. Gall y gostyngiadau arwain at ostyngiad mewn gwasanaethau a cholli staff, lle bo eu cyflog yn cael ei gyllido'n llwyr neu'n rhannol o gyllid grant.

## 8. SEFYLLFA'R GYLLIDEB AR GYFER 2025/26

**8.1.** Mae llawer o ansicrwydd yn parhau ynghylch economi'r DU a ph'un a fydd yn dechrau adfer yn 2024/25, a pha effaith fyddai'r adferiad yn ei gael ar chwyddiant, cyfraddau llog, twf economaidd a lefelau cyllido ar gyfer Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru. Mae lefel uchel chwyddiant ar hyn o bryd yn golygu fod darogan costau yn y dyfodol yn anoddach ac mae'r gwahanol senarios yn amrywio'n fawr. Mae'r ffaith bod rhaid cynnal Etholiad Cyffredinol cyn Ionawr 2025 yn ychwanegu at yr ansicrwydd o ran cyllido yn y dyfodol.

8.2. Mae'r argyfwng costau byw presennol hefyd yn ychwanegu at y galw am wasanaethau'r Cyngor, yn bennaf ym maes digartrefedd a darparu cymorth a chyngor ar ddyledion. Mae problemau ariannol mewn teuluoedd hefyd yn esgor ar broblemau iechyd meddwl a chwalfa deuluol ac mae hynny'n creu mwy o alw am ofal cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant. Bydd unrhyw gynnydd mewn diweithdra hefyd yn ychwanegu at y pwysau ar gyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a dyledion nad oes modd eu casglu. Mae'r problemau presennol yn y GIG yn ychwanegu at y pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Os bydd y rhyfeloedd yn Wcráin a Phalesteina yn parhau, bydd y pwysau ar gostau ynni yn parhau ac mae'r risg y bydd Covid yn ailymddangos yn bodoli o hyd.

8.3. Nid yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol yn datgan yn uniongyrchol beth fydd lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, ond y rhagolygon cychwynnol yw na fydd cynnydd o fwy na 1% yn lefel y cyllid yn setliad 2025/26. Os caiff hyn ei wireddu, yna byddai cynnydd o £1.26m yng nghyllid y Cyngor.

8.4. Er nad yw'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu beth fydd y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn y dyfodol, byddai cynnal y polisi tymor hir o gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu swm ychwanegol o £2.6m, ond, oherwydd y cyfyngiadau cyllido presennol, nid yw cynnal cynnydd cyfartalog o 5% yn cael ei ystyried yn opsiwn ymarferol, oni bai bod gwasanaethau craidd a statudol y Cyngor yn cael eu torri'n sylweddol.

8.5. Trwy ddefnyddio £4.425m o gronfeydd wrth gefn a £1.2m o gyllid o bremiwm y Dreth Gyngor i gydbwyso cyllideb 2024/25, byddai'n rhaid cyllido'r swm hwn o'r cyllid craidd ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer 2025/26, parhau i'w gyllido o gronfeydd wrth gefn neu drwy ostwng y gyllideb yn barhaol.

8.6. Os rhagdybir y bydd cyllid craidd yn cymryd lle'r swm o £5.625m sy'n cael ei gyllido o'r cronfeydd wrth gefn, byddai hyn yn golygu gostyngiad o £1.765m yn y cyllid craidd cyffredinol yn 2025/26 (£1.26m + £2.60m - £5.625m).

8.7. Mae'r rhagolygon presennol ar gyfer chwyddiant yn awgrymu y bydd chwyddiant cyfartalog tua 2.5% ar ddechrau 2025/26, cyn gostwng i tua 1.5% erbyn diwedd Mawrth 2026. O ganlyniad, amcangyfrifir na fydd y cyllid ychwanegol yn 2025/26 ond yn ddigon i gwrdd â chynnydd mewn chwyddiant ac ni fydd unrhyw gyllid ar gael i gwrdd â'r defnydd a wneir o gronfeydd wrth gefn yn 2024/25, nac i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau neu i fuddsoddi mewn gwasanaethau. Os yw'r adferiad economaidd yn wan ac os bydd chwyddiant yn parhau'n uwch na'r rhagolygon, ni fydd y cyllid ychwanegol yn ddigon i gwrdd â phwysau chwyddiant a bydd rhaid cwtogi cyllidebau gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd o gwbl ynglŷn â maint y gostyngiad yn y cyllidebau hynny.

8.8. Mae cydbwyso cyllideb 2024/25 wedi bod yn heriol iawn ond, ar sail y rhagdybiaethau presennol, mae'n amlwg na fydd y sefyllfa'n gwella yn 2025/26 ac mae'n debygol y bydd y broses o lunio cyllideb 2025/26 hyd yn oed yn anoddach, gan y bydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi gostwng a bydd yr holl arbedion cyllidebol y mae'n bosib eu gwneud, heb ostwng ansawdd ac ystod y gwasanaethau a ddarperir yn sylweddol, wedi cael eu rhoi ar waith yn barod. Yn y dyfodol, bydd rhaid i arbedion yn y gyllideb gynnwys lleihau neu roi'r gorau i wasanaethau ac, o bosib, peidio â chyflawni'r safonau statudol disgwyliedig. Mae gwaith wedi cychwyn yn barod i nodi arbedion posib ar gyfer 2025/26, a bydd y cynigion hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn ystod 2024/25.

## 9. CASGLIAD

9.1. Mae cyllideb 2024/25 wedi cael ei gosod yng nghyd-destun cyfyngiadau difrifol o ran cyllido gwasanaethau cyhoeddus, cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau a nifer o ffactorau tu hwnt i reolaeth y Cyngor sydd â goblygiadau sylweddol i'r Cyngor o ran costau. Nid yw'r sefyllfa heriol hon y mae'r Cyngor yn ei hwynebu o safbwynt y gyllideb yn unigryw i Fôn, mae pob awdurdod lleol yn y DU yn wynebu'r un sefyllfa. Mae rheolaeth ariannol gadarn yn y gorffennol yn golygu fod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref i ddelio gyda'r her yn y tymor byr, ond os yw costau a'r galw am wasanaethau'n parhau i dyfu, ac oni bai y gwelir y cynnydd angenrheidiol mewn cyllid, bydd angen i wasanaethau'r Cyngor gael eu hailstrwythuro'n sylweddol er mwyn i'r Cyngor osgoi mynd yn fethdalwr.

**9.2.** Mae gwasanaethau'r Cyngor yn dibynnu ar ei staff ymrwymedig a gweithgar ac mae angen cydnabod yr effaith ar y staff yma hefyd. Bydd yr her ariannol yn galw am ostwng lefelau staffio ond, oni bai bod y baich gwaith yn gostwng hefyd, bydd y pwysau ar staff yn parhau i dyfu, gan arwain at broblemau o ran cadw staff presennol, recriwtio staff newydd a sicrhau fod gan y Cyngor weithlu iach. Bydd cost ariannol yn gysylltiedig â delio gyda'r materion hyn a bydd rhaid ymgorffori hynny yn y cyllidebau yn y dyfodol.

**9.3.** Mae'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn unol â'r rhagolwg ac nid yw'n cwrdd â'r pwysau y mae'r Cyngor yn ei wynebu ar hyn o bryd o ran costau. Mae angen cynnydd o 8.26% yn y gyllideb ddisymud ar gyfer 2024/25, ond dim ond cynnydd o 2.67% sydd wedi'i gynnwys yn y setliad dros dro ar gyfer y Cyngor. Mae'r diffyg yn sylweddol ac ni ellir pontio'r bwlch drwy godi'r Dreth Gyngor yn unig.

**9.4.** Mae'r sefyllfa o ran cyllid grant yn creu her ariannol ychwanegol fydd yn arwain at ostyngiad yn rhai gwasanaethau a gyllidir drwy grant. Daw hyn yn gliriach unwaith daw'r dyraniadau unigol o bob grant yn hysbys.

**9.5.** Mae rheolaeth ariannol ddarbodus yn y gorffennol wedi cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn sylweddol, gan gynyddu balansau cyffredinol y Cyngor a'i gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Gan fod y sefyllfa ariannol wedi gwella, mae'n bosib i'r Cyngor gyflwyno cynnig ar gyfer y gyllideb lle mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn cael ei gadw cyn ised â phosib, er bod rhaid i'r cynnydd hwnnw fod yn uwch na'r gyfradd chwyddiant bresennol.

**9.6.** Mae rhywfaint o risg yn gysylltiedig â'r gyllideb, yn arbennig p'un a wnaed darpariaeth ddigonol ar gyfer cynnydd mewn cyflogau, chwyddiant mewn prisiau ynni a'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau. Mae'r risg yn cael ei liniaru oherwydd gallai'r Cyngor ailgyfeirio hyd at £3.3m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido costau uwch yn 2024/25.

**9.7.** Serch hynny, nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb yn barhaus yn gynaliadwy ac mae'n golygu fod gwytnwch ariannol y Cyngor yn cael ei wanhau. Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn caniatáu i'r Cyngor adolygu gofynion y gyllideb yn y tymor hir, a bydd rhaid ail-alinio'r gwasanaethau a ddarperir gyda'r cyllid sydd ar gael.

**9.8.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cychwyn y broses o leihau'r ddarpariaeth gwasanaeth, ond bydd rhaid cwtogi gwasanaethau yn sylweddol yn 2025/26 a thu hwnt i sicrhau y gall y Cyngor barhau i osod cyllideb gytbwys a chadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar lefel resymol a fforddiadwy. Byddai methu â gwneud hynny'n cynyddu'r risg fod y Cyngor yn anghynaladwy yn ariannol erbyn 2026/27 neu 2027/28.

## 10. MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIAD

**10.1.** Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r gyllideb derfynol tan 7 Mawrth 2024, ond, ar hyn o bryd, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

- Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2024/25 o £184.219m;
- Cynnydd arfaethedig o 9.78% yn y Dreth Gyngor, ynghyd â 1.12% i gwrdd ag Ardoll y Gwasanaeth Tân, sef cyfanswm o 10.9%, gan olygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,592.37;
- Gwneud cynnig ffurfiol i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi o 75% i 100%;
- Bod £4.425m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw 2024/25.

| CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2024/25 FESUL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2023/24** | **Cyllideb Arfaethedig 2024/25** | **Symudiad** | **% Newid** |
| | **£'m** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 49.260 | 52.498 | + 3.238 | + 6.57 |
| Addysg Ganolog | 12.709 | 13.392 | + 0.683 | + 5.37 |
| Diwylliant | 1.350 | 1.598 | + 0.248 | + 18.37 |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **63.319** | **67.488** | **+4.169** | **+ 6.58** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 7.890 | 8.058 | + 0.168 | + 2.13 |
| Eiddo | 1.548 | 1.757 | + 0.209 | + 13.50 |
| Gwastraff | 10.317 | 10.367 | + 0.050 | + 0.48 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **19.755** | **20.182** | **+ 0.427** | **+ 2.16** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd a Morwrol | 3.084 | 3.287 | + 0.203 | + 6.58 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2.670 | 2.910 | + 0.240 | + 8.99 |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **5.754** | **6.197** | **+ 0.443** | **+7.70** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **34.973** | **39.668** | **+ 4.695** | **+ 13.42** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | **12.965** | **14.443** | **+ 1.478** | **+ 11.40** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.587 | 1.696 | + 0.109 | + 6.87 |
| TGCh | 4.216 | 4.685 | + 0.469 | + 11.12 |
| Trawsnewid | 1.190 | 1.245 | + 0.055 | + 4.62 |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **6.993** | **7.626** | **+ 0.633** | **+ 9.05** |
| | | | | |
| **Tai** | **1.590** | **1.661** | **+ 0.072** | **+ 4.53** |
| | | | | |
| **Adnoddau** | **3.723** | **4.021** | **+ 0.298** | **+ 8.00** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **2.014** | **2.128** | **+ 0.114** | **+ 5.66** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **151.086** | **163.415** | **+ 12.329** | **+ 8.16** |
| | | | | |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.760 | 0.802 | + 0.042 | + 5.53 |
| Ardollau | 4.504 | 5.018 | + 0.514 | + 11.41 |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3.244 | 2.143 | - 1.101 | - 33.94 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 4.329 | 5.753 | + 1.424 | + 32.89 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 0.109 | 0.109 | 0.000 | 0.00 |
| Ailgodi Tâl ar y CRT | (0.800) | (0.800) | 0.000 | 0.00 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6.752 | 7.433 | + 0.681 | + 10.09 |
| Cyllidebau Wrth Gefn | 2.979 | 1.241 | - 1.738 | - 58.34 |
| Arbedion Staff i'w canfod | 0.000 | (1.000) | -1.000 | |
| Rhyddhad Dewisol tuag at y Dreth | 0.105 | 0.105 | 0.000 | 0.000 |
| Benthyciadau a Grantiau Tai | 1.501 | 0.000 | - 1.501 | -100.00 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Corfforaethol** | **23.483** | **20.804** | **- 2.679** | **-11.41** |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **174.569** | **184.219** | **+ 9.650** | **+ 5.53** |

ATODIAD 3

## GOSTYNGIADAU ARFAETHEDIG YN Y GYLLIDEB AR GYFER 2024/25

| Categori | Gwasanaeth | Cynnig | £ |
|---|---|---|---|
| Effeithlonrwydd / Moderneiddio / Rhesymoli Gwasanaethau | Addysg – Ysgolion | Gostwng y gyllideb integreiddio uwchradd i adlewyrchu'r galw hanesyddol | 100,000 |
| | Addysg | Gostwng cyllidebau nad yw'r gwasanaeth yn eu gwario'n llawn | 103,210 |
| | Addysg | Gostwng y gyllideb blynyddoedd cynnar i adlewyrchu'r galw hanesyddol | 9,000 |
| | Addysg | Ailstrwythuro'r Tîm Busnes Addysg | 50,000 |
| | Addysg | Gostyngiad o 5% yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol | 87,000 |
| | Llyfrgelloedd | Gostwng cyllidebau nad yw'r gwasanaeth yn eu gwario'n llawn | 12,000 |
| | Diwylliant | Ailstrwythuro ar draws yr Archifau ac Oriel Ynys Môn | 5,000 |
| | Gwasanaethau Oedolion | Gostwng cyllidebau nad yw'r gwasanaeth yn eu gwario'n llawn | 28,500 |
| | Gwasanaethau Oedolion | Gostwng cyllidebau trwsio a chynnal a chadw ar gyfer cartrefi gofal preswyl a chanolfannau eraill | 70,000 |
| | Plant – Ieuenctid | Adlinio darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid | 50,000 |
| | Priffyrdd | Gostwng y gyllideb diogelwch ffyrdd | 10,000 |
| | Priffyrdd | Gostwng cyllidebau cefnogaeth y Gwasanaeth | 10,000 |
| | Trawsnewid | Gostwng cyllideb hysbysebu'r Tîm Cyfathrebu | 1,000 |
| | Trawsnewid | Gostwng y gyllideb ar gyfer costau adolygiad y Panel Perfformiad – creu cyllideb flynyddol fydd yn ddigon i gwrdd â chost yr adolygiad pan gaiff ei gynnal | 28,000 |
| | Adnoddau | Gostwng cyllidebau nad yw'r gwasanaeth yn eu gwario'n llawn | 15,000 |
| | Busnes y Cyngor | Gostwng cyllidebau nad yw'r gwasanaeth yn eu gwario'n llawn | 6,000 |
| | Trawsnewid | Ail-negodi'r contract ffonau symudol | 22,500 |
| **CYFANSWM ARBEDION EFFEITHLONRWYDD / MODERNEIDDIO / RHESYMOLI GWASANAETHAU** | | | **607,210** |

| Categori | Gwasanaeth | Cynnig | £ |
|---|---|---|---|
| Cynnydd uwch na chwyddiant mewn incwm / Cynhyrchu incwm o ffynonellau newydd | Priffyrdd | Cynyddu incwm a gynhyrchir gan waith stryd preifat i adlewyrchu'r cynnydd yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaethau cyfleustodau lle mae ffi'n cael ei chodi am gau ffordd. | 150,000 |
| | Priffyrdd | Cynyddu y ffioedd parcio mewn meysydd parcio arfordirol a ffioedd am barcio am 4 + awr, ond rhewi'r gost am barcio am 1 awr a 2 awr yn y meysydd parcio canol trefi. | 100,000 |
| | Gwastraff | Cynyddu'r ffi am gasglu gwastraff gardd gwyrdd o £35 i £38, sydd gyfystyr â chwyddiant + £1.25 | 32,500 |
| | Datblygu Economaidd | Symud y Tîm Rheoli Cyrchfan i ran arall o'r Ganolfan Fusnes a rhentu eu swyddfa bresennol ar sail fasnachol | 6,000 |
| | Hamdden | Cynnydd o £1 y mis yng nghost pecyn Môn Actif | 62,000 |
| | Busnes y Cyngor | Cynyddu'r gyllideb ffioedd Pridiannau Tir i adlewyrchu lefelau incwm hanesyddol | 14,000 |
| **CYFANSWM ARBEDION TRWY GYNHYRCHU INCWM** | | | **364,500** |
| | | | |
| Gostwng Grantiau a Chyfraniadau i Sefydliadau Allanol | Addysg | Gostyngiad o 10% yn y cyfraniad i GwE | 40,000 |
| | Addysg | Gostwng y cyfraniad i'r Mudiad Meithrin | 14,000 |
| | Addysg | Rhoi'r gorau i wneud cyfraniad i Blynyddoedd Cynnar Cymru | 8,750 |
| | Tai | Cyfyngu'r cyfraniad i CAB i lefelau 2023/24 | 10,100 |
| **CYFANSWM ARBEDION O OSTWNG GRANTIAU A CHYFRANIADAU I SEFYDLIADAU ALLANOL** | | | **72,850** |
| | | | |
| Cwtogi Gwasanaethau | Gwasanaethau Plant | Lleihau cyllidebau cefnogi'r gwasanaeth | 23,400 |
| | Addysg | Dod â'r Cynllun Cyfeirio Addysg i ben | 20,000 |
| | Diwylliant | Newid arddangosfeydd yn Oriel Ynys Môn bob 8 wythnos yn hytrach na bob 6 wythnos | 1,000 |
| | Gwasanaethau Oedolion | Ailfodelu'r ddarpariaeth yn y cartref a lleihau ymatebion anstatudol | 96,500 |

| Categori | Gwasanaeth | Cynnig | £ |
|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Oedolion | Ailfodelu’r ddarpariaeth gofal dydd oedolion a symud i fodel gwasanaeth yn y gymuned | 102,000 |
| | Hamdden | Addasu oriau agor y 4 Canolfan Hamdden, lle mae’r defnydd lleiaf, i adlewyrchu’r defnydd presennol o’r canolfannau | 39,500 |
| **CYFANSWM ARBEDION O GWTOGI GWASANAETHAU** | | | **282,400** |
| | | | |
| **CYFANSWM Y CYNIGION AR GYFER ARBEDION** | | | **1,326,960** |
| | | | |
| | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **23 Ionawr 2024** |
| **Pwnc:** | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2024/25** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Alun Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Arwel Wyn Owen** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid**<br>**01248 752699 CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob Aelod** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau

**Argymhelliad**

Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref a chynyddu'r swm a godir am wasanaethau eraill fel yr amlinellir yn y crynodeb isod. Mae'r argymhellion wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adran hon (A1 – A9).

**1. Cefndir**

Mae'n arferol adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau gofal cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ffioedd a thaliadau a godir am ofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2024/25, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**2. Gwasanaethau Gofal Cartref:**

**Taliadau Gofal Cartref 2024/25**

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gadarnhau uchafswm y taliad, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Byddwn yn codi tâl hyd at yr uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru.

**3. Taliadau Teleofal**

Mae gwasanaethau Teleofal yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn y cartref drwy ddarparu cymorth ac ymateb 24 awr o'r dydd, 7 diwrnod o'r wythnos, drwy wasanaeth monitro o bell trwy linell ffôn. Mae modd gosod synwyryddion ychwanegol i helpu i adnabod risgiau amlwg e.e. codymau, gwres, dŵr ayb.

Rhaid ystyried y ffactorau canlynol wrth bennu tâl teg am y gwasanaeth Teleofal:-

- Cyfraniad yr Awdurdod Lleol i'r Gwasanaeth Monitro Galw Gofal Rhanbarthol;
- Taliadau cynnal a chadw;
- Costau offer Teleofal;
- Costau Cyllid a Gweinyddiaeth;
- Costau gosod;
- Costau ailgylchu offer;
- Costau archwiliadau gweledol Iechyd a Diogelwch ddwywaith y flwyddyn;

- Effaith ar fusnes cyfredol;
- Trawsnewid a moderneiddio gan ddefnyddio cymorthyddion technolegol.

Rydym wrthi'n newid o system Analog i system Ddigidol ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd pob defnyddiwr gwasanaeth wedi trosglwyddo i'r platfform Digidol erbyn 1 Ebrill 2025. Yn sgil y newid hwn, cadarnhawn ein bod ni'n cynnig un gyfradd ffioedd am wasanaeth Teleofa ar y raddfa digidol, yn hytrach na gwahaniaethu rhwng gwasanaeth analog a digidol o fis Ebrill 2024 ymlaen. Byddwn yn cadw'r pecynnau Haen 1 a Haen 2 yn 2024/25. Bydd y rheiny sydd eisoes wedi symud i'r system ddigidol yn gweld cynnydd o 5% yn y ffi, ond bydd y rheiny sydd yn dal i ddefnyddio'r system analog yn gweld cynnydd uwch o fis Ebrill 2024 ymlaen i adlewyrchu'r costau caledwedd uwch.

**<u>Tabl A - Taliadau Teleofal Arfaethedig ar gyfer 2024/25</u>**

| | |
|---|---|
| **Haen 1**<br>Offer Digidol, gwasanaeth a chynnal a chadw (uned, larwm gwddf a larwm mwg) | Bydd pawb yn talu £75.14 y chwarter.<br>(£5.78 yr wythnos) |
| **Haen 2**<br>Offer Digidol, gwasanaeth, monitro a chynnal a chadw<br>(offer heblaw uned, larwm gwddf a larwm mwg) | Bydd pawb yn talu £149.63 y chwarter.<br>(£11.51 yr wythnos) |

**<u>Tabl B – Taliadau Teleofal Blynyddol ar gyfer 2024/25</u>**

| | **2023/24** | **2024/2025 Taliadau Arfaethedig** |
|---|---|---|
| Gwasanaeth a Chynnal a Chadw | £133.18 | £140.00 |
| Gwasanaethau yn unig | £86.08 | £90.00 |
| Costau Gosod Unwaith ac am Byth | £53.25 | £56.00 |

## 4. Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion i brynu drostynt eu hunain y gwasanaethau y byddai'r Awdurdod Lleol wedi eu darparu ar eu cyfer fel arall. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi byw'n annibynnol drwy alluogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain a bod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Yng Nghymru, mae'r Cynllun wedi cael ei ymestyn yn raddol i gynnwys:-

- Pobl Hŷn;
- Gofalwyr;
- Rhieni Plant ag Anableddau;
- Oedolion ag Anableddau.

Pennwyd cyfradd Taliadau Uniongyrchol o £14.50 yr awr ar gyfer 2023/24. O ganlyniad i gynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, rydym yn cynnig codi'r ffi i £15.95 yr awr yn 2024/25.

**Micro Ofalwyr**

Oherwydd heriau recriwtio hirdymor ym maes gwasanaethau gofal cartref, mae'r Adran yn hyrwyddo cyfradd newydd i geisio recriwtio micro ofalwyr. Bydd y ddarpariaeth yn debyg i gynlluniau sydd eisoes ar y gweill mewn awdurdodau lleol eraill. Er mwyn bod yn gymwys, bydd rhaid i ymgeiswyr fodloni'r safonau sydd wedi'u gosod gan yr awdurdod lleol a chydymffurfio â gofynion cofrestru AGC. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, caniateir i ficro ofalwyr ofalu am hyd at 3 unigolyn a byddant yn gweithredu fel gweithwyr hunangyflogedig. I gydnabod y gofynion ychwanegol, mae'r raddfa fymryn yn uwch na'r raddfa ar gyfer Taliadau Uniongyrchol ond yn is na'r gost fesul uned a godir gan ddarparwyr annibynnol ar Ynys Môn. Y bwriad yw ceisio denu darpariaeth newydd o fewn y sector a chynyddu'r opsiynau sydd ar gael yn y gymuned. Rydym yn cynnig cyfradd o £17.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr.

**Moderneiddio'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru**

Argymhellir codi tâl o £10 am bob bathodyn mewn perthynas â bathodynnau sefydliadol a bathodynnau newydd (yn lle rhai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn) yn 2024/25.

**Prynu Gwasanaethau Gofal Dydd mewn Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol**

Y taliad am brynu gwasanaethau dydd yn 2023/24 oedd £41.55. Rydym yn cynnig cynyddu'r ffi ar gyfer 2024/25 i £44.33 y dydd. Bydd y cynnydd hwn o gymorth i sicrhau cynaliadwyedd a pharhad gwasanaethau gofal dydd a brynir gan gartrefi gofal preswyl annibynnol, ac er mwyn cwrdd ag anghenon unigol y defnyddwyr gwasanaeth.

**Ffioedd Gofal Cartref**

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion yn comisiynu gofal cartref gan y sectorau annibynnol yn dilyn ymarfer tendro yn 2023. Mae amodau'r contract yn nodi bod rhaid i ni ddarparu ar gyfer cynnydd statudol mewn deddfwriaeth, sydd gyfystyr â chynnydd o £1.72 yr awr o ganlyniad i gynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2024/25.

**Prydau mewn Gwasanaethau Dydd**

Ar gyfer 2024/25, rydym yn argymell cynnydd o 5% ar y ffioedd (wedi'i dalgrynnu i fyny i'r £0.05 agosaf).

**<u>Tabl C – Costau Prydau mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer 2024/25</u>**

| | **2023/24** | **2024/25 Taliadau Arfaethedig** |
|---|---|---|
| Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i Oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) | £7.25 | £7.65 |
| Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd i bobl ag anableddau dysgu | £3.05 | £3.25 |
| Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) yn y Gwasanaethau Dydd | £1.70 | £1.80 |

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

<u>**A1**</u> Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.

<u>**A2**</u> Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal, fel yr amlinellir yn Nhabl A.
Haen 1 – bydd pawb yn talu **£75.14** y chwarter.
Haen 2 – bydd pawb yn talu **£149.63** y chwarter.

<u>**A3**</u> Y Taliadau Teleofal Blynyddol, fel yr amlinellir yn Nhabl B.
Gwasanaethau a Chynnal a Chadw **£140.00**
Gwasanaethau'n unig **£90.00**
Costau gosod unwaith ac am byth **£56.00**

<u>**A4**</u> Cyfradd o **£15.95 yr awr** ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.

<u>**A5**</u> Gweithredu tâl o **£17.00 yr awr** ar gyfer Micro Ofalwyr.

<u>**A6**</u> Cadw'r taliad o **£10.00** ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlinellwyd.

<u>**A7**</u> Cynnydd o 6.7%, i **£44.33 y dydd,** yn y ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol**.**

<u>**A8**</u> Cynnydd o **£1.72 yr awr** mewn ffioedd Gofal Cartref i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd.

<u>**A9**</u> Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd, fel yr amlinellir yn Nhabl C.
Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - **£7.65**
Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - **£3.25**
Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - **£1.80**

**B –Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r opsiynau a nodir yn gyson â dull cyffredinol y Cyngor o weithredu mewn perthynas â ffioedd a thaliadau mewn blynyddoedd blaenorol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gan benderfyniadau ar ffioedd a thaliadau oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran incwm a dderbynnir a fforddiadwyedd taliadau a wneir yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys? | Amherthnasol |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Na |
| **3** | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud y penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Rydym wedi ymgynghori ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth fel rhan o'r broses pennu ffioedd. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | Amherthnasol |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Disgwylir cynnydd o 6.7% ym mudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) o fis Ebrill 2024, a disgwylir cynnydd o 8.5% yn y pensiwn safonol a phensiwn newydd y wladwriaeth o fis Ebrill 2024. Mae'r cynnydd arfaethedig yn is na'r cynnydd ganiateir oherwydd chwyddiant gan yr AGP ar gyfer budd-daliadau gwladol. Ni wyddys hyd yma a ydi Llywodraeth Cymru'n debygol o gynyddu'r cap ar ffioedd Gofal Cartref ai peidio, felly, ni allwn asesu effaith lawn unrhyw gynnydd, fodd bynnag, mae'r swm a godir yn dibynnu ar brawf modd. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Fel uchod, mae'r cynnydd oherwydd chwyddiant a argymhellir yn y papur hwn ar gyfer gwasanaethau tebyg wrth debyg yn is na'r cynnydd o 6.7% ar gyfer chwyddiant mewn budd-daliadau gwladol, yn gynnwys Credyd Cynhwysol, a'r cynnydd o 8.5% ar gyfer Pensiwn Gwladol. Fodd bynnag, mae'r symudiad statudol o lwyfannau Analog i Ddigidol ar gyfer gwasanaethau Teleofal gyfystyr â chynnydd o 34.4%, a bydd yn cael effaith uniongyrchol ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hwn yn wasanaeth dewisol, ac mae'r oedolion mwyaf bregus yn cael eu cyllido drwy ofal iechyd parhaus (CHC). Nid yw unigolion wedi'u clymu i gontract a gallant ddewis canslo'r gwasanaeth ar unrhyw adeg |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith ar y Gymraeg. |

| E - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol | |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | |
| 3 | **Cyfreithiol  Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **23 Ionawr 2024** |
| **Pwnc:** | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2024/25** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Alun Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwel Wyn Owen** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Carwyn Edwards – Rheolwr Cyllid**<br>**01248 752699 CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol** | **Pob Aelod** |

**A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**Argymhelliad**

Rydym yn argymell cynnydd o 8.8% yn y ffioedd ar gyfer Gofal Preswyl, Preswyl Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl, Nyrsio a Nyrsio pobl Hŷn Bregus eu Meddwl. Mae’r argymhellion wedi’u crynhoi ar ddiwedd yr adran hon (A1-A4).

**Cefndir**

O 6 Ebrill 2016, mae’r fframwaith ar gyfer asesiad ariannol a chodi ffioedd bellach yn dod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i’r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd yn y sector cartrefi gofal annibynnol bob blwyddyn i gyd-fynd â newidiadau Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal y sector annibynnol, rhaid i ni ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau’r ddarpariaeth wrth benderfynu ar ein ffioedd gofal sylfaenol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad gyda’r Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a’r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Ranbarthol fel meincnod, fel y gwnaed yn y blynyddoedd a fu. Rydym wedi defnyddio’r fethodoleg hon fel meincnod ar gyfer 2024/25. Mae’r fethodoleg hon yn adlewyrchu’r newidiadau deddfwriaethol o ran y cyflog byw gwirioneddol a chwyddiant. Rydym wedi addasu’r fethodoleg ranbarthol eto eleni i gynnwys ychwanegiad ar sail y farchnad ar gyfer darpariaeth pobl hŷn bregus eu meddwl. Wrth adolygu’r ffioedd, rydym wedi ystyried amgylchiadau lleol, y pwysau a’r galw ac argaeledd darpariaeth yn ogystal â’r fformiwla rhanbarthol.

Ar yr adeg hon, nid ydym wedi derbyn cadarnhad a ydi’r holl Awdurdodau yn y rhanbarth yn bwriadu defnyddio’r fethodoleg ranbarthol ai peidio fel sail ar gyfer pennu eu ffioedd ar gyfer 2024/25. Rydym wedi derbyn gohebiaeth gan un awdurdod lleol sydd wedi cadarnhau eu bod wedi defnyddio’r fethodoleg ranbarthol fel meincnod, fodd bynnag maent wedi penderfynu cynnwys ychwanegiad ar sail y farchnad oherwydd y pwysau ariannol yn y sector. Rydym yn gweithio gyda’n cymheiriaid ar draws rhanbarth Gogledd Cymru i sicrhau bod ein ffioedd yn debyg.

Ar ôl trafod gyda’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, ac wrth gydnabod y pwysau ariannol y mae ein darparwyr yn eu hwynebu, rydym yn argymell cynnydd o 8.8% yn y ffioedd, sy’n uwch na’r cynnydd chwyddiannol a gyfrifwyd gan ddefnyddio’r fethodoleg ranbarthol. Rhaid nodi ein bod ni’n wynebu pwysau ariannol fel Awdurdod Lleol, yn enwedig ers rhyddhau’r gyllideb refeniw dros dro ar gyfer 2024/25. Mae’r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru yn cyfateb i gynnydd o 2.5%, felly, er mwyn cyllido’r cynnydd o 8.8%, bydd rhaid i ni fel awdurdod ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd ar draws pob maes gwasanaeth.

Mae Tabl 1 isod yn nodi'r ffioedd yn seiliedig ar y cynnydd ar sail chwyddiant, ac mae Tabl 2 yn nodi'r cyfraddau arfaethedig ar gyfer Ynys Môn, sy'n cydnabod y pwysau y mae darparwyr yn eu hwynebu.

Mae'r ffioedd isod ar gyfer gofal nyrsio yn Nhabl 1 a 2 yn cynnwys elfen Gofal Nyrsio Am Ddim (FNC) yr Awdurdod Lleol, ond ddim elfen FNC y Bwrdd Iechyd, gan nad yw'r codiad ar gyfer 2024/25 wedi'i gytuno eto. Y gyfradd FNC Bwrdd Iechyd gyfredol ar gyfer 2023/24 yw £206.95.

**Tabl 1 – Ffioedd Arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn seiliedig ar addasu'r fethodoleg ffioedd ar gyfer 2023/24 yn ogystal â chynnydd ar sail chwyddiant**

| Categori | Ffioedd Gwreiddiol 2023/24 (Ebrill 2023) | Ffioedd Arfaethedig 2024/25 | Cynnydd o'i Gymharu â Ffioedd 2023/24 | % y Cynnydd o'i Gymharu â Ffioedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £711.83 | £753.04 | £41.21 | 5.79% |
| Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £795.46 | £842.19 | £46.73 | 5.87% |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £782.91 | £828.71 | £45.80 | 5.85% |
| Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £923.74 | £978.89 | £55.15 | 5.97% |

**Tabl 2 – Ffioedd Arfaethedig Ynys Môn ar gyfer 2024/25**

| Categori | Ffioedd Gwreiddiol 2023/24 (Ebrill 2023) | Ffioedd Arfaethedig 2024/25 | Cynnydd o'i Gymharu â Ffioedd 2023/24 | % y Cynnydd o'i Gymharu â Ffioedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £711.83 | £774.47 | £62.64 | 8.80% |
| Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £795.46 | £865.46 | £70.00 | 8.80% |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £782.91 | £851.81 | £68.90 | 8.80% |
| Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £923.74 | £1,005.03 | £81.29 | 8.80% |

Bydd y cynnydd o 8.8%, os caiff ei gymeradwyo, yn berthnasol i gartrefi sy'n derbyn ein cyfraddau safonol. Bydd rhaid i bawb sy'n derbyn ffi sy'n uwch na'r gyfradd ddangosol rannu gwybodaeth ariannol, fel y gellir ystyried cynyddu'r ffi.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr ynghylch y ffioedd hyn. Petai tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a bennwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i'r ffioedd a bennwyd. Cynigir bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

**1.** Gymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd fel a ganlyn:-

A1 - Gofal Preswyl (Oedolion) – £774.47 yr wythnos;
A2 - Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) - £865.46 yr wythnos;
A3 - Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £851.81 wythnos;
A4 - Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £1,005.03 yr wythnos.

Yr un modd ag Awdurdodau eraill, gofynnwn i'r Pwyllgor Gwaith roi'r awdurdod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Chyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion o'r cyllidebau cyfredol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Fe wnaethom ystyried seilio'n ffioedd ar y fethodoleg ranbarthol, fodd bynnag oherwydd y pwysau y mae ein darparwyr yn eu hwynebu, penderfynom wyro oddi wrth y fethodoleg hon am eleni a chynnig % uwch o gynnydd.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae angen i Awdurdodau Lleol bennu ffioedd cartrefi gofal yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae gan y penderfyniad hwn oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol ac o ran fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

**CH – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Yn y gorffennol, rydym wedi derbyn caniatâd i weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru ac i ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru i bennu'r ffioedd bob blwyddyn. Gan ein bod wedi gwyro oddi wrth y fethodoleg ranbarthol hon eleni, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r newid hwn.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae'r gost ychwanegol o ariannu'r ffioedd uchod wedi'i chynnwys ym mhroses gosod cyllideb yr Awdurdod.

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Bwriad hyn yw cefnogi ac annog darpariaeth newydd mewn ardaloedd o dwf. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy | Mae'r trafodaethau'n parhau ar lefel ranbarthol. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut | Dim ymgysylltu â dinasyddion, ond rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Darparwyr. |
| **5** | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bwriad hyn yw cefnogi unigolion a warchodir gan y Ddeddf. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Dim effaith |
| **7** | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith |

| | – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau**

Amherthnasol.

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Dim

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **23/01/2024** |
| Pwnc / Testun: | **Moderneiddio a Thrawsnewid Gweithgareddau Dydd yn Ardal Caergybi** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Alun Roberts** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Arwel Wyn Owen** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Arwel Wyn Owen**<br>**01248 752744**<br>**ArwelOwen3@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Cynghorydd Jeff M. Evans**<br>**Cynghorydd Glyn Haynes**<br>**Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes**<br>**Cynghorydd Robert Llewelyn Jones**<br>**Cynghorydd Pip O'Neill**<br>**Cynghorydd Keith R. Roberts**<br>**Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**ARGYMHELLIAD**

Integreiddio defnyddwyr i fod yn fwy o ran o'r gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynychu gweithgareddau er mwyn darparu allbynnau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd o ddarparu gweithgaredd dydd a'r pwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd o Morswyn wedi lleihau, dirwyn y gwasanaeth presennol i ben. Datgan yr eiddo yn weddill i anghenion gan wahodd datganiad o ddiddordeb gan Adrannau eraill. Os na fydd defnydd, gwaredu'r eiddo a throsglwyddo'r dderbynneb i'r Adran Oedolion.

**CYD-DESTUN**

Dau o Brif Amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28 yw:

- Cryfhau'r ddarpariaeth cyfleoedd dydd ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu trwy wella ac annog mynediad i adnoddau cymunedol.
- Sicrhau fod hybiau cymunedol yn darparu gwasanaethau er mwyn caniatáu annibyniaeth, lleihau unigrwydd a gwella iechyd a llesiant pobl.

Gweledigaeth yr Adran Oedolion yw:

- Bod cynifer a phosib o weithgareddau dydd yn cael ei darparu o leoliadau cymunedol gan annog cyfleoedd i bobl gydag Anabledd Dysgu i fynychu gweithgareddau prif lif ac i integreiddio i mewn i fywyd a gweithgaredd pob dydd eu cymunedau.
- Byddai gwireddu'r weledigaeth yn galluogi pobl gydag anabledd dysgu i ddewis lle a phryd maent eisiau mynychu gweithgareddau. Bydd gweithgareddau yn cael eu darparu o fewn cymunedau ar gyfer cymunedau cyfan a allai olygu bod ystod eang o bobl gan gynnwys yr henoed, pobl gydag anabledd corff ac anabledd dysgu yn mynychu'r un gweithgareddau.

**GOBLYGIADAU**

Defnyddwyr

Cymhelliant yr adroddiad yw ymateb i ddyheadau defnyddwyr gwasanaeth a chynnig profiad gwell a mwy amrywiol. Mae ymateb defnyddwyr o fewn yr ymgysylltiad ar ymgynghoriad wedi bod yn hynod bositif o'r newidiadau gyda rhai sydd wedi manteisio ar arlwy cymunedol yn datgan na fyddent yn dymuno dychwelyd i ddefnyddio Adeilad Morswyn. Mae'r gweithgareddau dydd yn gymunedol wedi profi'n llwyddiannus ac yn boblogaidd ymysg defnyddwyr gwasanaeth. Canlyniad hyn yw bod y nifer sy'n mynychu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn wedi lleihau. 9 person sy'n dod i'r ganolfan gyda 6 o'r rhain ond yn mynychu'n achlysurol gan ddewis mynychu gweithgareddau yn y canolfannau cymunedol. Bellach rydym yn credu y byddai modd cefnogi mwyafrif o ddefnyddwyr Morswyn yn y gymuned ac y gellid adnabod darpariaeth amgen mewn lleoliad arall neu addasu trefniadau gofal 3 unigolyn sydd a'r anghenion dwysaf. Bydd gweithwyr cymdeithasol yn trafod trefniadau unigol.

Staff

Mae na 7 o staff yn cael ei cyflogi yng Nghannolfan Morswyn. Bydd yr holl swyddi presennol yn cael eu gwarchod o fewn y cynllun. Bydd staff yn trosglwyddo i weithio yn gymunedol neu allan o ganolfan arall. Bydd yn golygu newid lleoliad a natur y gwaith ond byddwn yn ceisio sicrhau dilyniant gofal o ran defnyddwyr.

Bydd y swyddi presennol yn cael eu gwarchod a byddai lleoliad gwaith newydd yn cael ei gadarnhau yn dilyn trafodaeth unigol gyda staff gan geisio sicrhau bod yna ddilyniant o ran gofal unigolion a dyheadau'r aelod staff o ran lleoliad.

Cyllid

- Does yna ddim disgwyliad gwireddu arbedion o'r gyllideb staffio gan y bydd y staff yn trosglwyddo i weithio yn y gymuned neu mewn canolfannau eraill.

- Disgwylir arbediad cyllideb refeniw o £29,000. O'r cyfanswm yma mae £17,500 wedi cael ei wireddu yn barod oherwydd gostyngiad yn nefnydd y Ganolfan. Mae hyn yn gadael £11,500 i'w wireddu ar gau'r adeilad.

Adeilad

Bydd terfynu defnydd adeilad Morswyn yn osgoi:

- £103,000 o gostau cynnal a chadw angenrheidiol dros y blynyddoedd nesaf. Mae asesiad gan yr Adran Eiddo o'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn cynnwys:

    - Ail doi'r adeilad- toeau llechi a ffelt.
    - Ail blastro'r waliau tu allan.
    - Addasiadau i foderneiddio rhai o'r ffenestri a mewnosod larymau.
    - Diweddaru'r rhwydwaith trydan.

  Hen ysgol yw Canolfan Morswyn gyda chabanau wedi eu hychwanegu i'r safle er mwyn creu gofod ychwanegol. Mae nifer o broblemau ymarferol gyda'r adeilad e.e. nid yw'r adeilad yn llwyr hygyrch ar gyfer pobl gydag anawsterau symudedd oherwydd ei ddyluniad.

- Mae'r Adran wedi derbyn cadarnhad o werth ariannol yr adeilad i'w waredu gan yr Adran Eiddo.
- Mae'r Adran wedi gofyn am gadarnhad o statws cyfreithiol yr adeilad cyn ystyried ei waredu (freehold).

**CANOLFAN DDYDD MORSWYN (CAERGYBI)**

Mae Canolfan Ddydd Morswyn wedi ei leoli yn adeilad hen ysgol Morswyn yng Nghaergybi. Cyn y pandemig Covid roedd y ganolfan yn brysur ac yn darparu gweithgareddau ar gyfer oddeutu 20 unigolyn yn ddyddiol. Pan darodd y pandemig ddechrau 2020 bu rhaid i'r ganolfan gau am gyfnod er mwyn rhwystro pobl gymysgu a lledaenu'r firws.

Pan laciodd cyfyngiadau'r pandemig, er mwyn gweithredu rheolau pellhau cymdeithasol nid oedd modd derbyn yr un nifer i adeilad Morswyn. Mewn ymateb i'r sialens, dechreuodd y Gwasanaeth Oedolion ddefnyddio adeiladau cymunedol Tref Caergybi i gynnal gweithgareddau. Mae defnydd cyson ar adeiladau 'Boston Centre Stage' a'r 'Sgowtiaid Morwrol ac mae'r Cyngor wedi cynorthwyo'r mudiad sy'n rhedeg Boston Centre Stage i ymgeisio am arian i gyflwyno addasiadau fel toiledau i'r anabl.

Yn draddodiadol mae gweithgaredd dydd ar gyfer pobl gydag Anabledd Dysgu wedi ei ddarparu o adeiladau dynodedig. Mae gan y Cyngor bedwar safle penodol sy'n darparu gweithgaredd i oddeutu 110 o bobl:

- Canolfan Ddydd Morswyn, Caergybi
- Canolfan Ddydd Gors Felen, Llangefni
- Canolfan Ddydd Blaen y Coed, Llangoed
- Gerddi Haulfre, Llangoed

Mae'r Gwasanaeth Oedolion hefyd yn archebu darpariaeth ehangach ar gyfer oddeutu 67 o bobl gan y trydydd sector.

Er bod mynychu'r canolfannau a'r lleoliadau yn ymateb â llawer o anghenion pobl, mae'r model wedi canolbwyntio ar fynychu lleoliad, ac ymgymryd â gweithgareddau ffurfiol. Gall hyn gyfyngu dewisiadau unigolion a chyfyngu rheolaeth bersonol pobl am eu bywydau eu hunain. Gan fod y canolfannau yn darparu ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu yn unig gall gael yr effaith anfwriadol o dynnu pobl gydag anableddau dysgu allan o fywyd dydd i ddydd eu cymunedau lleol. O ganlyniad nid ydynt bob amser yn hyrwyddo'r bwriad i gynyddu hyder ac annibyniaeth pobl gydag anabledd dysgu. Er bod pobl yn ddiogel yn y canolfannau rhaid holi os mai mynychu un lleoliad yn ddyddiol yw'r ffordd orau o hyrwyddo byw bywydau llawn. Mae'r Adran yn ardal Caergybi wedi edrych ar ddull gwahanol o gwrdd ag anghenion defnyddwyr a'r adwaith wedi bod yn gadarnhaol.

Mae'r nifer o bobl sy'n mynychu gweithgareddau yn rheolaidd yn yr adeiladau cymunedol yng Nghaergybi yn 28. Mae'r rhain yn cynnwys pobl oedd yn flaenorol yn mynychu Morswyn a phobl sydd wedi trosglwyddo yn rhannol o weithgareddau eraill yn lleol.

Mae llwyddiant y gweithgareddau cymunedol i ddenu pobl yn profi i'r Adran bod y strategaeth yn gywir, a bod y buddsoddiad yn yr adeiladau cymunedol nid yn unig yng Nghaergybi ond ar draws yr Ynys yn werth eu gwneud. Mae Atodiad 4 yn rhoi mwy o fanylion am fuddsoddiad yr Adran Oedolion mewn adeiladau cymunedol.

## GWELEDIGAETH

Mae'r Gwasanaeth Oedolion yn dymuno datblygu'r model ac ehangu'r nifer o leoliadau sy'n darparu gweithgareddau dydd i bobl gydag Anabledd Dysgu yn ardal Caergybi. Byddai dargyfeirio adnoddau o Ganolfan Morswyn yn caniatáu buddsoddiad pellach yn y weledigaeth honno.

## YMGYSYLLTU GYDA DEFNYDDWYR GWEITHGAREDDAU DYDD

Yn ystod Mis Awst a Mis Medi 2023 casglodd yr Adran Oedolion farn y bobl sy'n defnyddio gweithgareddau dydd yn ardal Caergybi a'u teuluoedd. Derbyniwyd ymateb gan 37 o bobl, sy'n fynychwyr rheolaidd o'r gweithgareddau yn Boston, y Sgowtiaid Morwrol a Morswyn. Bwriad yr ymarferiad oedd mesur barn defnyddwyr

a'u teuluoedd am y gweithgareddau sy'n cael eu darparu o leoliadau cymunedol, a be fyddai pobl yn dymuno ei weld i'r dyfodol. Gofynnwyd tri chwestiwn:

- Pa weithgareddau dydd fyddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu cynnig yn y dyfodol?
- Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel Boston Centre Stage a'r Sgowtiaid Morwrol?
- A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi?

Mae 'Atodiad 1' yn cynnwys trawstoriad o'r ymatebion.

Roedd mwyafrif yr adborth a dderbyniwyd yn bositif tuag at y gweithgareddau sy'n cael eu cynnig o leoliadau cymunedol.

Mynegwyd dyheadau cryf tuag at gynyddu'r ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnig o leoliadau cymunedol. Yn benodol roedd gofyn am weithgareddau ymarferol fel chwaraeon ac awyr agored.

Casgliad yr Adran Oedolion o'r ymarferiad yma oedd bod pobl ar y cyfan yn gefnogol i'r weledigaeth o ddefnyddio adnoddau cymunedol i ddarparu gweithgareddau dydd a bod deheuad cryf i gynyddu amrywiaeth ymhellach.

**YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

Rhwng y 23/10/2023 a'r 01/12/2023 cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn. Ymgynghorwyd ar y cynnig canlynol:

- Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel 'Boston Centre Stage' a'r 'Sgowtiaid Morwrol'?
- A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi?
- A fyddech chi'n fodlon i'r Cyngor roi'r gorau i gynnig gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn ac ymestyn gweithgareddau mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi?
- Ydych chi'n meddwl y byddai terfynu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o gwbl?

Anfonwyd 123 o becynnau a holiaduron yn y post. Un pecyn i bob person ar y gofrestr pobl gydag anabledd dysgu yn ardal Caergybi (carfan ehangach na'r grŵp craidd o bobl sy'n mynychu'r gweithgareddau dydd yn rheolaidd). Cafodd staff Canolfan Ddydd Morswyn a'r staff sy'n cynnal y gweithgareddau mewn lleoliadau eraill eu hysbysu bod yr ymgynghoriad yn cychwyn ac fe anogwyd i gyfrannu. Roedd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor ac yn agored i bawb gyfrannu. Yn ychwanegol at hyn roedd cymorth ar gael dros y ffôn a thrwy adfocatiaeth i bobl oedd yn dymuno derbyn cymorth.

Mae Atodiad 2 yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion.

Derbyniwyd 34 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ymatebion:

| 1)Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel 'Boston Centre Stage' a'r 'Sgowtiaid Morwrol'? | | | 2)A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi? | | | 3)A fyddech chi'n fodlon i'r Cygnor roi'r gorau i gynnig gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn ac ymestyn gweithgareddau mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi? | | | 4)Ydych chi'n meddwl y byddai terfynu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o gwbl? | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Na | Dim Sylw | Byddwn | Na | Dim Sylw | Byddwn | Na | Dim Sylw | Byddai | Na Fyddai | Dim Sylw |
| 14 | 7 | 11 | 25 | 5 | 2 | 15 | 12 | 5 | 4 | 14 | 12 |

Crynodeb o ymatebion i'r Ymgynghoriad:

- Roedd y mwyafrif o'r bobl wnaeth ymateb yn hapus gyda'r gweithgareddau sy'n cael eu darparu o'r adeiladau cymunedol yn Boston ac yn y Sgowtiaid Morwrol.
- Roedd y mwyafrif helaeth o bobl wnaeth ymateb i gwestiwn 2 yn awyddus i weld mwy o weithgareddau dydd cymunedol yn cael eu darparu.
- Roedd y mwyafrif o bobl wnaeth ymateb i gwestiwn 3 yn fodlon i'r Cyngor ddod a gweithgareddau dydd i ben yng Nghanolfan Morswyn er mwyn ymestyn gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi. Roedd 47% yn fodlon a 38% yn anfodlon.
- Roedd y mwyafrif helaeth o bobl wnaeth ymateb i gwestiwn 4 o'r farn na fyddai dod a gweithgareddau dydd i ben yng Nghanolfan Morswyn yn cael effaith ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.

**CASGLIAD**

- Mae'r weledigaeth i ddarparu cynifer a phosib weithgareddau dydd o leoliadau cymunedol yn derbyn cefnogaeth glir gan y bobl sydd wedi cael profiad o'r model yma o ddarpariaeth.
- Ar y cyfan mae'r bobl sydd wedi cael profiad o fynychu gweithgareddau dydd yn Boston Centre Stage ac yn adeilad y Sgowtiaid Morwrol yn bositif iawn am eu profiadau. Mae rhai wedi mynegi barn gref na fyddent eisiau dychwelyd yn ôl i ganolfan Morswyn.
- Mae mwyafrif helaeth o bobl sydd wedi mynegi barn eisiau gweld mwy o amrywiaeth yn y ddarpariaeth gofal dydd a darparu rhagor o weithgareddau mewn mwy o leoliadau gwahanol.
- Byddai dod a gweithgareddau dydd i ben yng Nghanolfan Morswyn yn

rhyddhau adnoddau a chaniatáu i'r Adran Oedolion ddargyfeirio adnoddau a staff at sefydlogi ac ymestyn gweithgareddau dydd sy'n cael eu cynnal mewn adeiladau cymunedol eraill.

- Roedd unigolion oedd heb brofiad o weithgareddau cymunedol yn llai cefnogol. Mynegwyd pryderon am sut y gellid cefnogi pobl ag anghenion dwys yn gymunedol. Bydd y Gwasanaeth Oedolion yn gweithio gyda'r unigolion i adnabod sut orau i gwrdd â'u hanghenion. Mae hyn wedi amlinellu yn Atodiad 3, Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb. Gall olygu cynnig Gofal Dydd mewn ffordd wahanol neu gynnig gwasanaeth o Ganolfan Gors Felen yn Llangefni.

**ARGYMHELLIAD**

Integreiddio defnyddwyr i fod yn fwy o ran o'r gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynychu gweithgareddau er mwyn darparu allbynnau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd o ddarparu gweithgaredd dydd a'r pwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd o Morswyn wedi lleihau, dirwyn y gwasanaeth presennol i ben. Datgan yr eiddo yn weddill i anghenion gan wahodd datganiad o ddiddordeb gan Adrannau eraill. Os na fydd defnydd, gwaredu'r eiddo a throsglwyddo'r dderbynneb i'r Adran Oedolion.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r Adran Oedolion wedi ystyried dau opsiwn arall fel rhan o'r asesiad:

1) Dod a gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Boston Centre Stage ac adeilad y Sgowtiaid Morwrol i ben. Ailgyfeirio pawb yn ôl i ddefnyddio Canolfan Ddydd Morswyn.

<u>Manteision:</u>

- Cadw Canolfan Ddydd Morswyn yn agored. Dim newid i'r unigolion sydd gydag anabledd dwys a'r rhai sy'n parhau i ddewis mynychu Canolfan Morswyn.

<u>Anfanteision:</u>

- Colli cyfle i wireddu dau o amcanion cynllun y Cyngor 2023-28.
- Colli cyfle i wireddu gweledigaeth yr Adran Oedolion i ddefnyddio adnoddau cymunedol ar gyfer gweithgareddau dydd a darparu llwybr i bobl gydag anabledd dysgu i integreiddio i'w cymunedau.
- Mwyafrif defnyddwyr bellach yn ffafrio darpariaeth cymunedol.

- Mae asesiad Adran Eiddo'r Cyngor o'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar Ganolfan Morswyn yn nodi y byddai rhaid gwario oddeutu £103,000 ar y ganolfan er mwyn cynnal safon yr adeilad.

Barn yr Adran Oedolion yw y byddai anfanteision yr opsiwn yma yn golygu bod yn rhaid ei ddiystyru.

2) Parhau i gynnal gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Boston Centre Stage ac adeilad y Sgowtiaid Morwrol a pharhau i gynnal gweithgareddau yng Nghanolfan Morswyn.

<u>Manteision:</u>

- Cadw Canolfan Ddydd Morswyn yn agored. Dim newid i'r unigolion sydd gydag anabledd dwys sy'n parhau i ddewis mynychu Canolfan Morswyn.

<u>Anfanteision:</u>

- Dim modd defnyddio adnodd i ymestyn gweithgareddau mewn amrywiol safleoedd ar sail barhaol.
- Dim modd defnyddio adnodd i wireddu dau o amcanion cynllun y Cyngor 2023-28.
- Colli cyfle oherwydd diffyg adnoddau cyllidebol i wireddu gweledigaeth yr Adran Oedolion i ddefnyddio adnoddau cymunedol ar gyfer gweithgareddau dydd a darparu llwybr i bobl gydag anabledd dysgu i integreiddio i'w cymunedau.
- Mae asesiad Adran Eiddo'r Cyngor o'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar Ganolfan Morswyn. Bydd angen gwario oddeutu £103,000 ar y ganolfan er mwyn cynnal safon yr adeilad.

Barn yr Adran Oedolion oedd bod anfanteision yr opsiwn yma yn golygu bod yn rhaid ei ddiystyru.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw hwn yn cael ei adnabod fel penderfyniad sydd ei angen gan y Cyngor Sir, o dan y Cyfansoddiad, ac nid yw'r penderfyniad yn un sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth. Felly, mae'r penderfyniad yn disgyn i'r Pwyllgor Gwaith.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae’r cynllun yma yn cyd-fynd a bwriad strategol i foderneiddio'r ffordd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ac i ymestyn defnydd o adnoddau cymunedol a chyfleoedd ar gyfer integreiddio. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydy |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae’r penderfyniad yma’n gyson gyda, ac yn gam positif tuag at wireddu dau o amcanion Cynllun y Cyngor fel y nodir yn Adran A yr adroddiad. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Bydd dod a gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn i ben yn golygu cau’r adeilad. Yn ddibynnol ar benderfyniad pellach ynglŷn â defnydd yr adeilad i’r dyfodol gall osgoi gwariant cynnal a chadw fel a nodi’r yn Adran A. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Dim yn berthnasol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Fel rhan o’r gwaith sydd wedi arwain at yr argymhelliad yr adroddiad mae’r Adran Oedolion wedi ymgysylltu gyda defnyddwyr y gwasanaeth ac wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 3. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai | Gweler Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 3. |

| | | |
|---|---|---|
| | sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effeithiau negyddol wedi'u hadnabod.<br>Gweler Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 3. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Dim |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Dim |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Cefnogol i'r egwyddor. Wedi cynnig cyngor ar y fersiwn gwreiddiol a'r fersiwn terfynol o'r adroddiad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Mae'r Adran Adnoddau wedi bod yn rhan o gyfarfod gyda staff Canolfan Morswyn i egluro bod ymgynghoriad ar ddyfodol y ganolfan yn cychwyn. |
| 5 | Eiddo | Mae'r Adran Eiddo wedi cyfrannu asesiad o'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar adeilad Morswyn. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Dim yn berthnasol |
| 7 | Caffael | Dim yn berthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor sgriwtini. |
| 9 | Aelodau Lleol | Mae cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda'r Aelodau Lleol cyn i'r ymgynghoriad gychwyn ac i roi cyfle iddynt leisio unrhyw bryderon. |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| **Atodiad 1 -** Trawstoriad o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu Awst - Medi 2023<br>**Atodiad 2** – Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgysylltu ffurfiol<br>**Atodiad 3** – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>**Atodiad 4 –** Adnoddau Cymunedol |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| Cynllun y Cyngor 2023-28 |

## Atodiad 1- Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgysylltiad (Awst/ Medi 2023)

| | 1) Pa weithgareddau dydd fyddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu cynnig yn y dyfodol? | 2)Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel Boston Centre Stage a'r Sgowtiaid Morwrol? | 3) A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi? | Unrhyw Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|
| **Ymateb** | Mae canolfan galw i mewn yn well na 5 diwrnod yr wythnos – dewis ac amrywiaeth o ran beth i'w wneud/lle i fynd. Mae 'A' yn hoffi arsylwi, nid yw'n mwynhau pan mae hi'n rhy dawel. | Ydw – ond mae angen sicrhau bod cyfleusterau newid addas ar gael. Mwy o gyfleusterau newid ar yr ynys, mae'n well nag yr oedd yn arfer bod. Mae angen dau berson i newid. Ydw, hapus gyda phob peth. | Ddim yn ymwybodol o sut rai yw'r cyfleusterau o gymharu ag ardaloedd eraill. Byddai'n dda cael mwy o weithgareddau lle gall pobl ddod ynghyd. Cael mwy o gyfleoedd cymdeithasol. | Mae hi wrth ei bodd – byddai'n dod bob dydd pe byddai'n gallu. Mae hi'n ei golli pan mae'n mynd i ffwrdd, teimlo ei bod yn colli allan. Byddai'n torri ei chalon pe bai hynny'n cael ei chymryd oddi wrthi. Mae'n hoffi cael dewis, ac mae hi wedi gwneud ffrindiau newydd nad oedd hi'n eu hadnabod cyn hynny. |
| **Ymateb** | Hyrwyddo bwyta iach, mae 'A' wedi dechrau magu pwysau. Sesiynau nofio rheolaidd. Unrhyw beth yn yr awyr agored – cerdded yw un o hoff bethau 'A'. Sesiynau chwaraeon, pêl-picl, pêl-fasged er enghraifft. Y Sinema.<br>Tripiau – Mae 'A' wrth ei bodd yn mynd i unrhyw le. Cartio. | Ydw, hapus gyda'r staff. Maent yn gwrando ar yr hyn yr ydym yn ei ddweud. | Mwy o ddigwyddiadau yn yr awyr agored. | Byswn i'n licio gwasanaeth dydd lle ma nhw'n helpu fi i fod yn fwy annibynnol e.e. mynd ar y bws, i'r siop ar ben fy hun. |

## Atodiad 1 (parhad)- Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgysylltiad (Awst/ Medi 2023)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymateb** | Sesiynau nofio rheolaidd.<br>Mae hi'n caru'r amser mae hi'n ei dreulio yno, gyda'i ffrindiau ac mae'n saff. Mae'n teimlo'n ddiogel yno. | Ydw – dwi wir yn ei fwynhau o, cael treulio amser efo ffrindiau, a dwi'n mwynhau'r gweithgareddau. Dwi'n cael dewis beth dwi eisiau ei wneud. | Unrhyw fath o berfformio. Mae hi'n hoffi cael ei chynnwys a chymryd rhan. | Mae popeth yn dda. |
| **Ymateb** | Rydw i'n mwynhau'r chwaraeon a'r nofio. Rydw i'n hoffi'r amrywiaeth o fod mewn un adeilad ond hefyd medru mynd i wahanol leoedd mewn cerbyd. Gweithgareddau adeiladu tîm. Cerddoriaeth – bod yn rhan o fand. Ydw – rydw i'n mwynhau'r fawr, cael treulio amser efo ffrindiau, ac rydw i'n mwynhau'r gweithgareddau. Rydw i'n cael dewis beth dwi eisiau ei wneud. | Ydw - Bydd 'A' yn dewis cyfleusterau cymunedol yn hytrach na Morswyn pan mae o'n cael dewis. Mae'n well ganddo adeilad y Cadetiaid Môr; rydw i'n meddwl fod hyn oherwydd bod yr adeilad yn fwy golau. Mae'n dibynnu ar y cyflwr, mae dau le yn golygu y byddai llai o effaith ar bobl petai rheswm i gau. Mae Morswyn yn rhoi mwy o gymorth i, yn hytrach na gyda. Yma mae pobl yn derbyn y cymorth y maen nhw ei angen ac yn gwneud yr hyn y maen nhw'n gallu ei wneud eu hunain. | Byddwn, dwi'n hoffi gwneud mwy. Dwi'n hoffi mynd am fwyd, mynd i gerdded, tripiau dydd gydag anifeiliaid, sioeau. Dwi'n cael dweud beth hoffwn i inni wneud a lle i fynd. Rydw i wedi chwarae gemau nad oeddwn i'n meddwl y byswn i'n medru eu chwarae, er enghraifft, cymryd rhan mewn ras wy ar lwy. | Edrych ymlaen at y cynllun peilot |
| **Ymateb** | Nofio. Angen cynnwys cyfleoedd i wneud ymarfer corff. Mynd i'r gampfa. Mwynhau crefftau a gweithgareddau ymarferol. Dawnsio, mae'n mwynhau cerddoriaeth. | Ydi, mae Boston a'r Cadetiaid Môr yn wahanol iawn. Mae'n fwy bywiog. Roedd y diwrnodau'n hirach yn Morswyn ac roedd hi'n barod i adael ar ôl rhyw awr. | Byddwn – byddai'n braf cael diwrnod chwaraeon, coginio, grŵp gwau, crosio, celf a chrefftau. | |

# Atodiad 2- Ymgynghoriad- Dyfodol Canolfan Ddydd Morswyn (23/10/2023-01/12/2023)

| | 1) Wyt ti | | | 2) Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel 'Boston Centre Stage' a'r 'Sgowtiaid Morwrol'? | | | 3) A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi? | | | 4) A fyddech chi'n fodlon i'r Cyngor roi'r gorau i gynnig gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn ac ymestyn gweithgareddau mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi? | | | 5) Ydych chi'n meddwl y byddai terfynu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o gwbl? | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymateb | Yn berson gydag Anabledd Dysgu | Yn riant neu ofalwr i berson ag Anabledd Dysgu | Arall, ysgrifennwch isod | Ydw | Na | Dim Ymateb | Ydw | Na | Dim Ymateb | Ydw | Na | Dim Ymateb/ | Byddai | Na Fyddai | Dim yn Gwybod/ Dim yn Gwybod |
| 1 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | ✓ |
| 2 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | |
| 3 | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | |
| 4 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| 5 | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 6 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | ✓ |
| 7 | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 8 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| 9 | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | | | ✓ |
| 10 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | |
| 11 | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | |
| 12 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| 13 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | ✓ |
| 14 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 15 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 16 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 17 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ |
| 18 | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | |
| 19 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ |
| 20 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | |
| 21 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 22 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 23 | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| 24 | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | |
| 25 | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | |
| 26 | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| 27 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | | |
| 28 | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | |
| 29 | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | |
| 30 | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 31 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | |
| 32 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ |
| | 15 | 10 | 7 | 14 | 7 | 11 | 25 | 5 | 2 | 15 | 12 | 5 | 4 | 14 | 12 |
| 33 | Llythyr heb ymateb i'r cwestiynnau yn uniongyrchol | | | | | | | | | | | | | | |
| 34 | Llythyr heb ymateb i'r cwestiynnau yn uniongyrchol | | | | | | | | | | | | | | |

## Atodiad 2 (Parhad)- Sylwadau Ysgrifenedig ac Ymateb y Gwasanaeth Oedolion

**Crynodeb o Faterion a amlygwyd yn ystod yr Ymgynghoriad gydag Ymateb yr Adran**

| Materion a Rannwyd Sylwadau a Phryderon | Ymateb y Gwasanaeth |
|---|---|
| Nid yw'r ymgynghoriad wedi cynnwys barn defnyddwyr sy'n cael anhawster cyfathrebu | Trefnwyd sgyrsiau unigol gydag unigolion/teuluoedd fyddai'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol a gwahoddwyd Gwasanaeth Eiriolaeth i estyn cymorth. O fwrw ymlaen bydd trefniadau unigol yn cael eu cadarnhau i sicrhau bod y ddarpariaeth amgen yn addas. Gall hyn olygu cefnogi o Ganolfan arall. |
| Mae'n annerbyniol meddwl am gau Morswyn a symud y bobl sydd ag anableddau dwys ac angen cymorth i fwydo a newid i le fel Boston a lle arall sydd heb doiled anabl. | Mae addasiadau wedi eu cyflwyno o fewn adeilad y Sea Scouts a Boston Centre Stage ac mae'r rhain wedi bod y addas ar gyfer unigolion sy'n defnyddio'r adeilad. Gellid hefyd ystyried lleoliadau adeiladau eraill ac addasiadau pellach. |
| Does dim gwaith gwario ar Morswyn, tydi'r tô ddim yn gollwng. | Mae'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn Morswyn wedi ei amlinellu o fewn yr adroddiad. Rhagwelir y bydd angen buddsoddiad yn y dyfodol agos i gynnal safon yr adeilad. |
| Mae Canolfan Morswyn wedi bod yn agored ers cryn amser yng Nghaergybi ac mae'n lle defnyddiol i bobl ag anableddau fynd. Mae'n cynnig pob math o weithgareddau iddynt eu gwneud. | Mae nifer o ddefnyddwyr wedi cadarnhau eu bod yn mwynhau gweithgareddau cymunedol ac wedi datgan y byddent yn dewis gweld y rhain yn cael ei datblygu a'u hymestyn.<br><br>Gweledigaeth yr Adran Oedolion yw gallu darparu ystod eang o weithgareddau o wahanol adeiladau er mwyn hyrwyddo integreiddio. |

## Atodiad 2 (Parhad)- Sylwadau Ysgrifenedig ac Ymateb y Gwasanaeth Oedolion

| | |
|---|---|
| Y cwbl sydd angen ei wneud yw diweddaru Morswyn a gosod/darparu pethau i bobl eu gwneud, i roi mwy o ddewis o bethau iddynt eu gwneud. | Ni fyddai Morswyn yn addas yn yr hir dymor heb gyflwyno gwelliannau sylweddol ac mae nifer y defnyddwyr wedi lleihau gan fod unigolion bellach yn ffafrio gweithgareddau mwy amrywiol mewn lleoliadau gwahanol. |
| Rydw i wedi bod yn ofalwr yng Nghanolfan Morswyn yn ystod y 12 mlynedd diwethaf ac rydw i wedi gweithio i'r Cyngor am 35 mlynedd. Mae ein lle ni fel ail gartref i'n cleientiaid, rydym yn darparu gofal a gweithgareddau yno ac nid yw lleoedd eraill yn darparu hynny, ac maent yn teimlo'n ddiogel yma. | Mae staff Morswyn wedi ac yn cynnig gwasanaeth o safon i unigolion ac rydym eisiau i hyn barhau, ond bod y gefnogaeth yn cael ei ddarparu o leoliadau gwahanol, gan gynyddu cyfleoedd a chynnig amrywiaeth o brofiadau. |
| Dydw i ddim yn credu y gall y gwasanaethau eraill gynnig yr un lefel o ofal, yn enwedig i'r rhai sydd ag anghenion gofal uwch, megis gofal personol. Mae'r holl gyfleusterau hyn ar gael ym Morswyn. | Os bydd anghenion ychwanegol uwchlaw'r hyn y gellir ei ddarparu yn gymunedol bydd trafodaeth gydag unigolion a'u teuluoedd. Gall olygu defnyddio adeiladau cymunedol eraill, trefniadau unigol gwahanol neu ddefnydd o Gors Felen. |
| Dydyn ni ddim wedi defnyddio Canolfan Morswyn ond rydym yn defnyddio'r grŵp Cadetiaid Môr/ Boston Centre Stage. Mae'r grŵp yma wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fy merch. Mae'r cynllun peilot yng Nghanolfan Gwelfor wedi bod yn wych. Mae hyder fy merch wedi tyfu cymaint ac mae hi'n llawer mwy cymdeithasol ac mae hi'n medru mynegi ei barn yn haws a gwneud ei dewisiadau / penderfyniadau ei hun. | Mae'r newidiadau yn deillio o awydd i ymestyn cyfleoedd a gall fod yn bosibl ehangu nifer y lleoliadau a gweithgareddau fydd yn cael eu cynnig. Gwyddwn fod yna weithgareddau ac adeiladau eraill ar gael yn ardal Caergybi, ond byddai yn ofynnol ar symud staff ac unigolion i ddatblygu. |

**Atodiad 3**



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1 | 14/03/2023 | Drafft cyntaf |
| 2 | 10/10/2023 | Ail Ddrafft |
| | | |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Yr effaith ar gydraddoldeb yn deillio o gynnig y Gwasanaeth Oedolion i holi a fyddai cefnogaeth gan randdeiliaid i ystyried rhoi'r gorau i ddarparu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn er mwyn ail gyfeirio adnoddau at ehangu'r opsiynau gweithgareddau dydd sy'n cael eu cynnig o leoliadau cymunedol, a darpariaeth gan fudiadau cymunedol. |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Cynnig Newydd |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Gwahodd adborth a barn rhanddeiliaid ardal Caergybi ynglŷn â'r newid yn y modd mae gweithgareddau dydd yn cael eu darparu gyda phwyslais ar adeiladau cymunedol. Mae niferoedd y bobl sy'n mynychu Canolfan Ddydd Morswyn wedi gostwng gan fod pobl yn dewis  a ffafrio mynychu gweithgareddau dydd sy'n cael eu cynnal mewn adeiladau cymunedol yn ardal Caergybi. Gofyn a fyddai cefnogaeth gan randdeiliaid ystyried rhoi'r gorau i ddarparu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn er mwyn caniatáu'r Cyngor i ail gyfeirio adnoddau at ehangu'r opsiynau gweithgareddau dydd sy'n cael eu cynnig o leoliadau cymunedol a gan fudiadau cymunedol. |
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu? | Pennaeth Gwasanaeth Oedolion |
| 5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Rheolwr Gwasanaeth Uned Darparu – Gwasanaeth Oedolion |
| 6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Rheolwr Gwasanaeth Uned Darparu – Gwasanaeth Oedolion<br>Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl - Gwasanaeth Oedolion<br>Rheolwr Canolfan Byron – Gwasanaeth Oedolion<br>Rheolwr Tîm Anabledd Dysgu – Gwasanaeth Oedolion<br>Rheolwr Trawsnewid a Datblygu – Gwasanaeth Oedolion |

<table>
<tr><th colspan="3">Cam 1: Y Cefndir</th></tr>
<tr><td>7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu’r effaith?</td><td colspan="2">• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cynllun y Cyngor 2022-2028.</td></tr>
<tr><td rowspan="4">8 - Ydy’r cynnig yn berthnasol i sut mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy’n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir.</td><td>Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu</td><td>Ydi</td></tr>
<tr><td>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</td><td>Ydi</td></tr>
<tr><td>Meithrin perthynas dda</td><td>Ydi</td></tr>
<tr><td>Diogelu hyrwyddo hawliau dynol</td><td>Ydi</td></tr>
<tr><td>9 - Ydy’r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1.</td><td colspan="2">Ydy - Mae’n benderfyniad strategol i ail gyfeirio darpariaeth Gwasanaeth Dydd i ffwrdd oddi wrth adeiladau penodol tuag at wasanaethau cymunedol sy’n caniatáu i bobl gydag anabledd dysgu integreiddio mwy fwy ym mywyd pob dydd eu cymunedau.</td></tr>
<tr><td>10 - Pwy fyddai’n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu’n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol)?<br><br>Os yw’r penderfyniad yn un strategol, sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai’r cynnig yn effeithio mwy</td><td colspan="2">• Oedolion gydag Anabledd Dysgu sy’n mynychu gwasanaethau dydd mewnol (Morswyn).<br>• Eu teuluoedd a’u gofalwyr.<br>• Staff a Rheolwyr Gwasanaeth mewnol.</td></tr>
</table>

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd cymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas (gweler atodiad 1). | • Darparwyr Allanol o wasanaethau dydd.<br>• Mudiadau trydydd sector.<br>• Staff Gwaith Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn. |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Ni ddylai'r cynnig gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Rydym yn hyrwyddo dull rhagweithiol i wneud cynnig yn yr Iaith Gymraeg yn unol â fframwaith strategaeth 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor wrth drefnu a darparu ein gwasanaethau cymdeithasol. |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Mae nifer uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei roi i anghenion ieithyddol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfathrebu gyda ni mewn iaith o'i dewis nhw.<br><br>Mae gofyn yn barod mewn lle bod pob darparwr (mewnol ac allanol) yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn bod yn ddiwylliannol sensitif. |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Mae'r gwasanaeth yn barod yn cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg ac mi fydd y cynllun hwn yn parhau i gynnig darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Does dim bwriad newid darparwr y gwasanaeth, y Cyngor (Gwasanaeth Darparu mewnol) fydd yn parhau i ddarparu. |

| **Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** | |
|---|---|
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Mi fydd y cynllun yn rhoi cyfle pellach i ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau trwy roi cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn weithgareddau bob dydd eu cymunedau. |

Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;

**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar Monitor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .



| **Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998** | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | Gall newid y ffordd y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu gael effaith ar hawliau unigolion mewn perthynas â:<br><br>Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull - gall nifer fechan o ddefnyddwyr gwasanaeth gydag anghenion dwys orfod symud i ganolfannau eraill yn bellach i ffwrdd er mwyn parhau i dderbyn gwasanaeth am nad yw rhai adeiladau cymunedol yn addas ar eu cyfer. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | |
| | Cymru gydnerth | Ydi – cefnogi cymunedau i fod yn gynhwysol. |
| | Cymru iachach | Ydi – cefnogi pobl gydag anabledd dysgu i gael mynediad at weithgareddau amrywiol er bydd llesiant corfforol a meddyliol. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydi - caniatáu i bobl gydag anabledd dysgu gael cymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn cymunedau. |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydi – caniatáu i bobl gydag anabledd dysgu gael cymryd rhan mewn gweithgareddau a dod i nabod pobl eraill yn eu cymunedau. |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | • Mae rheolwyr a staff yng Nghanolfan Morswyn yn ymwybodol bod adolygiad o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal.<br>• Mae defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd eisoes wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ar safleoedd eraill.<br>• Mae swyddogion o'r Adran Oedolion wedi ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth / rhieni a gofalwyr yn ardal Caergybi er mwyn casglu barn pobl ynglŷn â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig, y lleoliadau presennol sy'n cynnig y gweithgareddau, a dymuniadau pobl i'r dyfodol ar gyfer datblygu gweithgareddau. |
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | Dim |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Na |

**Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda - **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | Dim effaith | Dim yn berthnasol i'r grŵp yma | |
| Anabledd | Cadarnhaol | Mae'r Cyngor yn cynnig addasu'r cyfleon gweithgareddau dydd er mwyn hybu a chefnogi pobl gydag anabledd dysgu i gymryd mwy o ran ac integreiddio yn eu cymunedau. Gall fod angen newid lleoliad gweithgareddau all olygu symud i leoliad arall. | Pe bydd cynnig i gau Canolfan Morswyn yn cael cefnogaeth bydd y Gwasanaeth Oedolion yn trafod anghenion unigol unigolion gyda nhw.<br><br>Bydd anghenion unigol yn cael eu trafod ynghyd ac unrhyw newidiadau e.e. teithio ac unrhyw addasiadau rhesymol eraill. |
| Rhyw | Dim effaith | | |
| Newid Rhyw | Dim effaith | | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Dim effaith | | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | Dim effaith | | |
| Crefydd neu Gred | Dim effaith | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Dim effaith | | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Dim effaith | | |

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi’r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | Cadarnhaol | Trwy gynnig mwy o opsiynau i bobl Gymraeg gydag anabledd dysgu i ddefnyddio’r iaith yn eu cymunedau. | |
| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Mae’r newid yn un cadarnhaol o ran cynyddu’r cyfleoedd i bobl gydag anabledd dysgu i integreiddio yn eu cymunedau. | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | Dim | | |
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os daw unrhyw faterion o’r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a’u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan ‘unrhyw fater perthnasol arall’ uchod. | | | |

| Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1) | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | Dim effaith | Mae'r gwasanaeth yn cynnig ail gyfeirio adnoddau oddi wrth gynnal adeilad er mwyn ehangu darpariaeth gweithgareddau dydd mewn adeiladau cymunedol sydd eisoes yn bodoli yn yr un ardal. | Mi fydd y Gwasanaeth Oedolion yn gweithio gyda phobl i adnabod y dulliau gorau i gwrdd â'u hanghenion ac os bydd hyn yn golygu teithio i leoliadau, bydd trafnidiaeth yn cael ei ddarparu ar gost y Cyngor. |



**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/a'u yng ngham 3). | Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld y gall fod angen trosglwyddo un person sy'n mynychu Canolfan Morswyn i ddarpariaeth arall. Mae hyn oherwydd anghenion dwys y person sy'n golygu na fydd mynychu lleoliadau cymunedol yn addas.<br><br>Byddwn yn trafod dymuniadau'r unigolyn a sut orau i gyfarch eu hanghenion. Mae lleoliad ar gael o fewn Canolfan Gors Felen. |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd, | |
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Na |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | Mae anghenion pob person, a'r ffordd orau i gwrdd â'r anghenion hyn yn cael eu trafod a'u cytuno gyda nhw. |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno gydag argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith. |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Bydd Tîm Rheoli'r Adran Oedolion yn goruchwylio'r broses ymgynghori yn ogystal â nodi materion sydd angen eu gweithredu. |

**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Atodiad 4 – Adnoddau Cymunedol**

Mae'r Cyngor wedi gosod Cyfleusterau Newid Hygyrch i Oedolion (*Accessible Adult Changing Facilities)* mewn gwahanol leoliadau ar draws Ynys Môn. Mae'r cyfleusterau hyn yn galluogi oedolion ag anableddau a'u gofalwyr i ymweld â'r lleoedd hyn, ble efallai na fyddant wedi gallu yn y gorffennol.

Mae Cyfleusterau Newid Hygyrch Oedolion yn amrywio o ran gofod a chyfluniad, ond yn gyffredinol maent yn cynnwys toiledau hygyrch, byrddau newid maint oedolion, codwyr *(hoist)* trydanol neu dan arweiniad â llaw, ac weithiau cawodydd.

Rydym wedi buddsoddi mewn Cyfleusterau Newid Hygyrch i Oedolion yn yr adeiladau cymunedol canlynol.

- Canolfan Hamdden Caergybi
- Llyfrgell Caergybi
- Boston Centre Stage, Caergybi
- Canolfan Hamdden Llangefni
- Gors Felen, Llangefni
- Mencap Môn, Llangefni
- Canolfan Hamdden Amlwch

O ganlyniad i'r buddsoddiad mae gan unigolion gydag anabledd dysgu neu anabledd corfforol ddewis ehangach o weithgareddau cymunedol, sydd yn cynyddu'r cyfleoedd i gymdeithasu ac integreiddio.

Fel rhan o waith ehangach i sicrhau ein bod yn deall pa mor hygyrch ac addas ydi adeiladau Cymunedol ar gyfer gweithgareddau, rydym wedi creu Cyfeirlyfr Adeiladau Cymunedol.

Cyfeirlyfr adeiladau cymunedol (llyw.cymru)

Yn ogystal, rydym yn creu Cyfeirlyfr Cludiant Cymunedol bob dwy flynedd, er mwyn sicrhau fod pobl yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn gymunedol.

Cyfeirlyfr Cludiant Cymunedol Môn (llyw.cymru)

This page is intentionally left blank